Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 102/2025

Dyddiad cyhoeddi: 22/10/2025

# Cyflog byw gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol: gwerthusiad o'r broses

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-527-5

Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol
Is-deitl: Adroddiad Gwerthusiad o'r Broses

Awduron: Dr Lucy Webster, Joshua Butt, Stella Butler, Tom Noon, a Colin Horswell (Cordis Bright)

Adroddiad Ymchwil Llawn: [Cyfenw, Blaenlythyren. (dyddiad). Teitl. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 102/2025.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cyflog-byw-real-i-weithwyr-gofal-cymdeithasol-gwerthuso-prosesau

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Dadansoddi ac Arloesi

Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

analysisandinnovationteam@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....5

Geirfa 6

Cyflog Byw Cenedlaethol .....6

Cyflog Byw Gwirioneddol.....6

Grant Cynnal Refeniw .....6

1. Cyflwyniad a chefndir .....7

1.1 Trosolwg.....7

1.2 Talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol .....7

1.3 Ynglŷn â’r gwerthusiad o'r broses .....8

1.4 Strwythur yr adroddiad .....9

2. Methodoleg .....10

2.1. Casglu data .....10

2.1.1 cyfweliadau gydag 11 o randdeiliaid strategol cenedlaethol .....10

2.1.2 Gweithdai gyda chomisiynwyr gofal o awdurdodau lleol a byrddau iechyd.....10

2.1.3 Gweithdai gyda darparwyr gofal .....11

2.1.4 Arolwg gyda derbynwyr taliadau uniongyrchol.....12

2.1.5 Data ffurflenni monitro.....12

2.1.6 Data hysbysebion swyddi .....13

2.2 Dadansoddiad .....13

2.2.1 Dadansoddi data meintiol .....13

2.2.2 Dadansoddi data ansoddol .....14

2.2.3 Triongliad .....14

2.2.4 Heriau a chyfyngiadau gwerthuso.....14

3. Dull gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol 16

3.1 Trosolwg.....16

3.2 Gosod y Gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol.....16

3.2.1 Cyd-destun: Y Gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol o 2020-2024.....16

3.3 Cyfrifo'r cyllid ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol.....18

3.4 Llywodraethu a chanllawiau polisi .....18

3.5 Dosbarthu cyllid i gomisiynwyr a darparwyr gofal.....19

3.6 Dosbarthu cyllid i dderbynwyr taliadau uniongyrchol sydd â chynorthwywyr personol .....20

3.7 Monitro a goruchwylio polisi ....................................................................................... 20
4. Pa mor effeithiol mae'r polisi wedi'i weithredu ....................................................... 22
4.1 Trosolwg ....................................................................................................................... 22
4.2 Mae'r polisi'n cael ei gefnogi'n dda gan bob parti ..................................................... 22
4.3 Mae mwy o weithwyr gofal cymdeithasol yn cael Cyflog Byw Gwirioneddol, ond nid pawb ................................................................................................................................ 22
4.3.1 O drafodaethau gyda chomisiynwyr a darparwyr gofal ........................................ 23
4.3.2 O hysbysebion swyddi ar gyfer rolau gweithwyr gofal cymdeithasol .................... 24
4.4 Mae mwy o gynorthwywyr personol yn cael y Cyflog Byw Gwirioneddol .................... 25
4.5 Mae'r polisi wedi cynyddu nifer y gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n cael y Cyflog Byw Gwirioneddol, ond ni allwn ni ddweud faint ................................................................... 26
4.5.1 Y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol yw un o sbardunau buddsoddiad cynyddol mewn cyflogau gweithwyr gofal cymdeithasol ............................................................ 27
4.6 Mae prinder cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol wedi ei gwneud yn anoddach cymhwyso'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol ................................................................... 27
4.7 Mae darparwyr wedi cael trafferth cynnal gwahaniaethau cyflog rhwng gweithwyr rheng flaen a rheolwyr ......................................................................................................... 29
4.8 Nid yw Llywodraeth Cymru'n pennu'r gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol nac yn rheoli amseru cyhoeddiadau ....................................................................................................... 30
4.9 Mae’r berthynas a’r trafodaethau rhwng comisiynwyr a darparwyr gofal, a derbynwyr taliadau uniongyrchol ac awdurdodau lleol, yn amrywiol .................................................. 31
4.9.1 Defnyddio rhwymedigaethau cytundebol ............................................................ 32
4.9.2 Derbynwyr taliadau uniongyrchol a gweinyddu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ......... 33
4.10 Nid oedd gan y broses o oruchwylio'r dull gweithredu polisi ddata manwl ............... 34
5. Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o ganlyniadau a chanlyniadau annisgwyl ................. 35
5.1 Trosolwg ....................................................................................................................... 35
5.2 Canlyniadau i weithwyr gofal cymdeithasol ................................................................. 35
5.2.1 Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn derbyn cyfraddau cyflog uwch ................. 35
5.2.2 Atal tlodi mewn gwaith a lliniaru costau byw ........................................................ 36
5.2.3 Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn fwy bodlon ac mae eu morâl wedi gwella 36
5.3 Canlyniadau ar gyfer y system ofal ehangach ............................................................. 37
5.3.1 Recriwtio a chadw staff ........................................................................................ 37
5.3.2 Sefydlogrwydd ariannol gwasanaethau ................................................................ 38
5.4 Canlyniadau annisgwyl y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol ................................................................................................................... 38
5.4.1 Staff yn lleihau eu horiau neu'n gadael rolau ....................................................... 38

5.4.2 Datgymell camu ymlaen mewn gyrfa ........................................ 39
5.4.3 Mae disgwyliadau cyflog wedi codi ........................................ 39
5.5 Canlyniadau annisgwyl y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol i'r system ofal ehangach ... 40
5.5.1 Darparwyr bach yn newid sut y maent yn darparu gofal ........................................ 40
5.5.2 Symiau atodol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd ........................................ 40
5.6 Faint o wahaniaeth mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'i wneud? ........................................ 41
5.6.1 Dim ond un rhan o'r pos yw cyflog ........................................ 41
5.6.2 Efallai na fydd y gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol yn ddigon uchel i gael effaith sylweddol ........................................ 42
5.6.3 Cystadleuaeth â sectorau eraill ........................................ 42
6. Casgliadau ac argymhellion ........................................ 43
6.1 Trosolwg ........................................ 43
6.2 Casgliadau a chanfyddiadau allweddol ........................................ 43
6.2.1 Mae'r polisi wedi'i weithredu'n bennaf fel y cynlluniwyd gan Lywodraeth Cymru, comisiynwyr gofal a darparwyr ........................................ 43
6.2.2 Mae'n debygol bod y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol wedi cyrraedd y rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol cymwys ........................................ 43
6.2.3 Y rhwystr mwyaf i'r polisi yw'r cyd-destun economaidd a chyllido, ond mae hyn wedi cael ei waethygu yn sgil peidio â neilltuo cyllid ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol ........................................ 44
6.2.4 Cafodd y polisi ganlyniadau cadarnhaol cynnar ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, ond cafwyd canlyniadau annisgwyl a negyddol hefyd ........................................ 44
6.3 Argymhellion ........................................ 44
7. Cyfeiriadau ........................................ 47
8. Atodiad A: Theori Newid ........................................ 48
8.1 Pam ........................................ 48
8.1.1 Angen sy'n seiliedig ar dystiolaeth ........................................ 48
8.1.2 Arsylwi sy'n seiliedig ar dystiolaeth ........................................ 48
8.2 Pwy (rhagdybiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth) ........................................ 48
8.3 Sut (yn seiliedig ar 2023-24) ........................................ 48
8.4 Beth fydd y polisi yn ei gyflawni? ........................................ 49
8.4.1 Canlyniadau tymor byr ........................................ 49
8.4.2 Canlyniadau tymor canolig ........................................ 49
8.4.3 Canlyniadau hirdymor ........................................ 49
8.5 Rhagdybiaethau ........................................ 50

8.6 Ffactorau allanol ..... 50
9. Atodiad B: Cynlluniau ar gyfer y gwerthusiad o effaith ..... 51
10. Atodiad C: Effaith codiad cyflog o'r Cyflog Byw Cenedlaethol i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar daliad Credyd Cynhwysol ..... 53
10.1 Cyfrifo Effaith Credyd Cynhwysol ..... 53
10.2 Crynodeb ..... 54

# Rhestr o dablau

Tabl 1: Y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol o 2020 i 2024 .................17

# Geirfa

## Cyflog Byw Cenedlaethol

Y Cyflog Byw Cenedlaethol yw'r isafswm cyflog ar gyfer y rhai sy'n 21 oed neu'n hŷn (yn 2024). Mae cyfraddau yn newid bob blwyddyn ar 1 Ebrill. Adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn (Awst 2024), y Cyflog Byw Cenedlaethol ar hyn o bryd yw £11.44. Yn y flwyddyn flaenorol, y Cyflog Byw Cenedlaethol oedd £10.18 ar gyfer y rhai 21-22 oed a £10.42 ar gyfer y rhai 23 oed a hŷn.

## Cyflog Byw Gwirioneddol

Mae’r Cyflog Byw Gwirioneddol yn gyfradd gyflog fesul awr a gyfrifir gan gorff annibynnol, sef y Comisiwn Cyflog Byw. Mae'n seiliedig ar gostau byw ac mae'n cael ei dalu'n wirfoddol gan gyflogwyr.

Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei ddiweddaru bob blwyddyn ac mae disgwyl i gyflogwyr sy'n ymrwymo iddo gyflwyno'r gyfradd fesul awr newydd o fewn chwe mis i'r cyhoeddiad blynyddol. Cafodd y Cyflog Byw Gwirioneddol ei godi i £10.90 ym mis Medi 2022 a'i godi eto i £12.00 ym mis Hydref 2023 (ac eithrio Llundain, sydd â chyfradd uwch).

## Grant Cynnal Refeniw

Mae'r Grant Cynnal Refeniw yn gyllid sy'n cael ei ddarparu i bob awdurdod lleol i'w wario ar wasanaethau allweddol, megis gofal cymdeithasol, ac mae'n cael ei ddosbarthu yn unol â fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion.

# 1. Cyflwyniad a chefndir

## 1.1 Trosolwg

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Cordis Bright i gynnal gwerthusiad annibynnol o'i hymrwymiad polisi i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r gwerthusiad hwn yn cynnwys datblygu Theori Newid, gwerthusiad o'r broses, a gwerthusiad o effaith.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o'r **gwerthusiad o'r broses** mewn perthynas â'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol, gan asesu effeithiolrwydd y dull o'i weithredu. Mae hefyd yn cynnwys dadansoddiad o dystiolaeth ynghylch canlyniadau cynnar ac argymhellion ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad sylfaenol, gan gynnwys adolygiad tystiolaeth cyflym a'r Theori Newid ar gyfer y polisi ar gael yma: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cyflog-byw-gwirioneddol-mewn-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru

Bydd yr adroddiad ar y gwerthusiad o effaith ar gael yn 2025.

## 1.2 Talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol

Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn gyfradd gyflog fesul awr a bennir gan y Comisiwn Cyflog Byw. Mae'n wahanol i'r Cyflog Byw Cenedlaethol, sef isafswm cyflog Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer pobl ifanc 21 oed a hŷn, gan ei fod yn bodoli i adlewyrchu costau byw yn well. Mae'n cael ei dalu'n wirfoddol gan y cyflogwyr hynny sy'n dewis optio i mewn i'r cynllun. Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei ddiweddaru a'i gyhoeddi bob blwyddyn ym mis Hydref, ac mae disgwyl i gyflogwyr sy'n ymrwymo iddo gyflwyno'r gyfradd newydd o fewn chwe mis i'r cyhoeddiad blynyddol.

Ym mis Hydref 2023, cyhoeddwyd mai'r Cyflog Byw Gwirioneddol newydd ar gyfer 2023/24 fyddai £12.00 yr awr ledled y Deyrnas Unedig, ac eithrio Llundain Fwyaf, lle mae'r gyfradd yn uwch.

Roedd talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yn un o addewidion allweddol Rhaglen Lywodraethu 2021-26, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Morgan, 2021; Llywodraeth Cymru, 2024a; Llywodraeth Cymru, 2023, os gwelwch yn dda edrycha yn y cyfeiriadau). Cyflwynwyd y polisi i adlewyrchu angen cydnabyddedig i dalu mwy o arian i weithwyr gofal cymdeithasol, ac mae'n cyd-fynd ag agenda bolisi ehangach yng Nghymru yn ymwneud â gwaith teg (Comisiwn Gwaith Teg, 2019). Mae agenda bolisi Gwaith Teg Llywodraeth Cymru yn cael ei sbarduno'n bennaf gan egwyddorion sydd am sicrhau bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo'n deg, eu cynrychioli, a'u bod yn ddiogel mewn amgylchedd gwaith iach a chynhwysol sy'n parchu hawliau.

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu adnoddau ariannol ychwanegol er mwyn sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn derbyn o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol o fis Ebrill 2022 ymlaen (Llywodraeth Cymru, 2024a). Mae'r ymrwymiad cyllido ychwanegol hwn yn bwriadu talu'r gwahaniaeth rhwng y gyfradd Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn

ariannol a'r gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol a gyhoeddwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r cyllid hefyd yn cynnwys cyfraniad tuag at y gost o gynnal gwahaniaethau cyflog rhwng gweithwyr gofal cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2024a).

Mae'r polisi'n berthnasol i bob gweithiwr gofal cymdeithasol sydd wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, mewn cartrefi gofal a gofal cartref ar draws gwasanaethau oedolion a phlant, a gweithwyr gofal cartref cofrestredig mewn lleoliadau byw â chymorth (Llywodraeth Cymru, 2024a). Mae hyn yn cynnwys gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu neu sy'n cael unrhyw gyllid o gontractau awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd, yn ogystal â'r rhai mewn gwasanaethau a ariennir yn llawn gan ddefnyddwyr gwasanaethau.

Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i bob cynorthwyydd personol sy'n cael ei ariannu drwy daliadau uniongyrchol (Llywodraeth Cymru, 2024a).

Lluniwyd Theori Newid ar gyfer y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol a gellir ei weld yn Atodiad A.

## 1.3 Ynglŷn â'r gwerthusiad o'r broses

Nod y gwerthusiad o'r broses oedd adolygu sut mae'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'i weithredu, effeithiolrwydd dull gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a nodi ffactorau sydd wedi helpu neu rwystro ei effeithiolrwydd, yn ogystal â chanlyniadau anfwriadol cadarnhaol a negyddol posibl.

Archwiliodd y gwerthusiad ddull gweithredu'r polisi yn ystod blwyddyn gyntaf y polisi, Ebrill 2022 i Fawrth 2023, ac o ail flwyddyn ac i mewn i ddechrau trydedd flwyddyn y polisi o Ebrill 2023 i Fehefin 2024, pan ddaeth y broses o gasglu data ar gyfer y gwerthusiad hwn i ben.

Roedd amcanion y gwerthusiad o'r broses fel a ganlyn:

- asesu pa mor effeithiol mae dull gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi bod o ran cyrraedd y gwahanol fathau o weithwyr gofal cymdeithasol cymwys, gan gynnwys nodi hwyluswyr a rhwystrau.
- ystyried gwahanol fecanweithiau cyflawni'r Cyflog Byw Gwirioneddol a lefel cysondeb y dull gweithredu, er enghraifft, ar draws ALlau a BIau.
- nodi meysydd arfer da.
- nodi canlyniadau anfwriadol gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.
- argymell gwelliannau yn y broses o reoli a gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Roedd y gwerthusiad o'r broses yn cynnwys:

- cyfweliadau gydag 11 o randdeiliaid strategol cenedlaethol. Roedd y meysydd allweddol i'w trafod yn cynnwys cynnydd dull gweithredu'r polisi hyd yma, gan

gynnwys pa mor effeithiol mae'r cynnydd wedi bod, ac unrhyw ffactorau sydd wedi galluogi neu rwystro cynnydd.

- pedwar gweithdy rhanbarthol gyda 21 aelod o staff gofal cymdeithasol o awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Roedd y meysydd allweddol i'w trafod yn cynnwys sut mae'r polisi'n cael ei weithredu, a beth yw'r effeithiau disgwyliedig a'r canlyniadau annisgwyl i weithwyr gofal cymdeithasol a'r system ehangach
- pedwar gweithdy rhanbarthol gyda chynrychiolwyr o 19 darparwr gofal. Roedd y meysydd allweddol i'w trafod yn cynnwys sut y cafodd costau'r polisi eu nodi a'u cyfrifo, y cyllid ar gyfer y polisi, newidiadau y bu'n rhaid i'r sefydliad eu gwneud ac effaith y polisi
- arolwg ar-lein gyda derbynwyr taliadau uniongyrchol, sy'n defnyddio eu taliad i ariannu cynorthwyydd personol. Roedd pynciau cwestiynau allweddol yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r polisi, faint roedd eu cynorthwyydd personol yn cael ei dalu ac a oedd hyn wedi codi oherwydd y polisi, a pha effaith mae'r polisi wedi'i chael
- data gweithredu a dogfennaeth, gan gynnwys data o ffurflenni monitro a data o hysbysebion swyddi.

Mae disgrifiad llawn o'r dulliau ym Mhennod 2. Mae hyn yn cynnwys manylion ynglŷn â samplu ac ansawdd.

## 1.4 Strwythur yr adroddiad

Mae strwythur yr adroddiad fel a ganlyn:

- Pennod 2. Methodoleg: sut y casglwyd data a chan ba grwpiau rhanddeiliaid
- Pennod 3. Dull gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol: sut y bwriadwyd cyflawni'r polisi a sut y cafodd ei gyflawni
- Pennod 4. Pa mor effeithiol mae'r polisi wedi'i weithredu: pa mor effeithiol mae'r polisi wedi bod o ran cyrraedd gweithwyr gofal cymdeithasol, a beth sydd wedi hwyluso neu rwystro'r cyrhaeddiad hwnnw
- Pennod 5. Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o ganlyniadau a chanlyniadau annisgwyl: pa ganlyniadau a chanlyniadau annisgwyl mae'r polisi wedi'u cael ar weithwyr gofal cymdeithasol a'r sector ehangach
- Pennod 6. Casgliad ac argymhellion: y casgliadau a'r argymhellion ar gyfer rheoli a gweithredu'r polisi yn y dyfodol.

# 2. Methodoleg

## 2.1. Casglu data

Defnyddiwyd dulliau cymysg i gasglu data. Defnyddiwyd y dull hwn gan ei fod yn caniatáu dealltwriaeth fwy penodol, ac integreiddio a thriongli data ansoddol a meintiol. Roedd y dulliau'n cynnwys:

- cyfweliadau gydag 11 o randdeiliaid strategol cenedlaethol
- pedwar gweithdy rhanbarthol gyda 21 o gomisiynwyr gofal o awdurdodau lleol a byrddau iechyd
- pedwar gweithdy rhanbarthol gyda chynrychiolwyr o 19 darparwr gofal
- arolwg ar-lein gyda 276 o dderbynwyr taliadau uniongyrchol, sy'n defnyddio eu taliad i ariannu cynorthwyydd personol
- data gweithredu a dogfennaeth, gan gynnwys data o ffurflenni monitro a data o hysbysebion swyddi.

### 2.1.1 cyfweliadau gydag 11 o randdeiliaid strategol cenedlaethol

Cynhaliwyd cyfweliadau rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2024 gydag 11 o randdeiliaid. Roedd pob un ohonynt mewn swydd sy'n darparu safbwynt cenedlaethol ar ddatblygu a gweithredu'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru enwebu rhanddeiliaid yr oeddent yn teimlo a allai ddarparu'r safbwynt cenedlaethol hwn o wahanol sefydliadau allweddol. Roedd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:

- Fforwm Gofal Cymru
- Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant
- Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol
- Undeb Llafur Unsain
- Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

### 2.1.2 Gweithdai gyda chomisiynwyr gofal o awdurdodau lleol a byrddau iechyd

Cynhaliwyd gweithdai gyda chomisiynwyr gofal ar-lein ym mis Mai 2024. Cynhaliwyd cyfanswm o bedwar gweithdy, wedi'u rhannu'n rhanbarthol - un ar gyfer y Gogledd, y Canolbarth, y De-ddwyrain a'r De-orllewin, gyda'r nod o sicrhau cynrychiolaeth o bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd.

Gwahoddwyd comisiynwyr gofal o bob un o'r 22 awdurdod lleol a'r saith bwrdd iechyd i fynychu eu gweithdy rhanbarthol.

Roedd y pynciau o fewn y canllaw trafod ar gyfer y gweithdai comisiynwyr gofal yn cynnwys:

- pam mae angen y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol
- y canlyniadau disgwyliedig ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a'r system ehangach

- effaith ddisgwyliedig y polisi
- sut mae'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei weithredu

Ar draws y pedwar gweithdy, mynychodd cyfanswm o 21 o gomisiynwyr gofal, gan gynnwys 17 o gomisiynwyr gofal yn cynrychioli 15 o'r 22 awdurdod lleol, a phedwar comisiynydd gofal yn cynrychioli tri o'r saith bwrdd iechyd.

**2.1.3 Gweithdai gyda darparwyr gofal**

Cynhaliwyd gweithdai gyda darparwyr gofal ar-lein ym mis Mai 2024. Gofynnwyd i bob awdurdod lleol lenwi ffurflen i enwebu saith darparwr (dau ddarparwr cartref preswyl neu gartref nyrsio ar gyfer oedolion hŷn; un darparwr cartref preswyl neu gartref nyrsio ar gyfer oedolion o oedran gweithio; un darparwr cartref plant; un darparwr canolfan deuluol i blant; a dau ddarparwr gofal cartref neu fyw â chymorth) yn eu hardaloedd awdurdod lleol yr oeddent yn meddwl fyddai'n fodlon cymryd rhan. Gofynnwyd i awdurdodau lleol enwebu'r mathau hyn o ddarparwyr gan eu bod yn cynrychioli'r archdeipiau gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Cafwyd enwebiadau gan 16 awdurdod lleol; a chan fod rhai awdurdodau lleol wedi darparu mwy na'r saith enwebiad, cafwyd 142 o enwebiadau i gyd (gydag enwebiadau dyblyg wedi'u tynnu).

Roedd y pynciau o fewn y canllaw trafod ar gyfer y gweithdai darparwyr gofal yn cynnwys:

- nodi a chyfrifo cost y Cyflog Byw Gwirioneddol
- ariannu'r Cyflog Byw Gwirioneddol
- newidiadau i ddarparu ar gyfer talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol
- edrych i'r dyfodol
- effeithiau cynnar y Cyflog Byw Gwirioneddol

Cynhaliwyd cyfanswm o bedwar gweithdy, wedi'u rhannu'n weithdai ar gyfer y Gogledd, y De-orllewin a dau weithdy cyfunol yn y Canolbarth a'r De-ddwyrain, gan fod mwy o enwebiadau ar gyfer y De-ddwyrain a llai ar gyfer y Canolbarth. Gwahoddwyd yr holl ddarparwyr a enwebwyd i'w gweithdy/gweithdai rhanbarthol (yn cyfateb i ranbarth yr awdurdod lleol a'u henwebodd) a chawsant y cyfle i gofrestru ar sail y cyntaf i'r felin, gydag uchafswm cyfranogiad o 12 fesul grŵp ffocws. Cadwyd o leiaf un lle fesul y math o ddarparwr hefyd.

Mynychodd 19 o swyddogion o 19 sefydliad cyhoeddus y gweithdai. Roedd cynrychiolwyr yn cynnwys y rhai a oedd â rolau arwain uwch, megis Cyfarwyddwyr, Unigolion Cyfrifol neu Reolwyr Cofrestredig, neu rolau sy'n ymwneud â gweithrediadau, contractio neu gyfrifyddu.

Roedd y cymysgedd o ddarparwyr a fynychodd yn cynnwys: pum darparwr gofal preswyl neu ofal nyrsio ar gyfer oedolion hŷn, tri darparwr gofal preswyl neu ofal nyrsio ar gyfer oedolion o oedran gweithio, saith darparwr gofal cartref neu fyw â chymorth, dwy ganolfan deuluol i blant, a dau gartref plant.

### 2.1.4 Arolwg gyda derbynwyr taliadau uniongyrchol

Cynlluniwyd arolwg ar-lein ar gyfer unigolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol neu'r rhai a benodwyd i reoli taliadau uniongyrchol ar ran eraill. Nod yr arolwg oedd cofnodi ymwybyddiaeth a phrofiadau derbynwyr taliadau uniongyrchol gyda'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol ac asesu effaith y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol mewn un holiadur, gan leihau'r baich cyfranogi. Roedd yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau amlddewis a phenagored, gan ganiatáu i ymatebwyr ddarparu manylion ychwanegol os oeddynt yn dymuno.

Gofynnodd yr arolwg gwestiynau i ymatebwyr taliadau uniongyrchol am y canlynol:

- a oeddent yn defnyddio taliadau uniongyrchol i dalu cynorthwyydd personol, ac a oedd hyn ar eu cyfer nhw'u hunain neu rywun arall y maent yn rheoli'r taliad uniongyrchol ar ei ran
- eu hymwybyddiaeth o'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol
- pam a faint y maent yn ei gael yn eu taliad uniongyrchol
- faint o oriau o gymorth y maent yn eu cael gan gynorthwywyr personol a faint y maent yn ei dalu i'w cynorthwywyr personol
- a oeddent wedi newid tâl eu cynorthwywyr personol ers i'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol ddechrau.
- unrhyw effaith y credant mae'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'i chael ar ansawdd y gofal a nifer yr oriau o ofal y maent yn eu cael gan gynorthwywyr personol, a rhwyddineb ac ansawdd recriwtio cynorthwywyr personol.

Cafodd yr arolwg ei dreialu gan gyswllt yn un o'r awdurdodau lleol a oedd yn ymdrin â thaliadau uniongyrchol. O hyn, dim ond mân wallau teipograffig a nodwyd, a newidiwyd fel y bo'n briodol, ac ni awgrymwyd unrhyw newidiadau mawr.

Gofynnwyd i bob un o'r 22 awdurdod lleol ddosbarthu'r arolwg i dderbynwyr taliadau uniongyrchol, a chadarnhaodd 15 awdurdod lleol eu bod wedi dosbarthu'r arolwg. Gweinyddwyd yr arolwg drwy SmartSurvey a gellid ei gwblhau yn Gymraeg a Saesneg, gyda chymorth ffôn ar gael gan y tîm gwerthuso i'r rhai a oedd angen cymorth.

Roedd yr arolwg ar agor o 1 Mai 2024 i 30 Mehefin 2024. Cwblhaodd 276 o bobl yr arolwg.

### 2.1.5 Data ffurflenni monitro

Er mwyn helpu i ddeall dull gweithredu'r polisi, adolygwyd gwybodaeth fonitro sy'n cwmpasu Ebrill 2022 i Ebrill 2023. Casglwyd yr wybodaeth hon gan Lywodraeth Cymru drwy ffurflenni monitro a gwblhawyd bob chwarter gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu.

Nid oedd Llywodraeth Cymru'n gallu rhannu'r ffurflenni wedi'u cwblhau gyda Cordis Bright oherwydd cyfrinachedd, felly rhannodd bedwar cyflwyniad cryno o'r data o bob chwarter o'r flwyddyn gyntaf o weithredu. Mae'r cyflwyniadau chwarterol hyn yn crynhoi cynnydd mewn cyfraddau comisiynu, cryfderau a gwendidau'r wybodaeth a gasglwyd, a heriau o ran gweithredu.

Nid oedd y ffurflenni bob amser yn cael eu dychwelyd gan bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd. Yn ogystal, roedd rhai cwestiynau'n arwain yn rheolaidd at ddata gweithredu anghyflawn neu amcangyfrifedig. Roedd y ffurflenni hyn yn disgrifio:

- faint o gyllid oedd wedi'i drosglwyddo i ddarparwyr ar gyfer codiadau i'r Cyflog Byw Gwirioneddol
- faint o ddarparwyr oedd yn gymwys i dderbyn cynnydd i'w ffioedd er mwyn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w gweithwyr
- a faint o ddarparwyr oedd wedi codi cyflog eu gweithiwr o ganlyniad i gyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol

Yn ogystal, ar ôl y flwyddyn gyntaf bu gostyngiad sylweddol yng nghyfraddau cwblhau ffurflenni monitro. Mewn ymateb i'r heriau hyn, trefnodd Llywodraeth Cymru weithdy ym mis Rhagfyr 2023 gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd i archwilio dulliau monitro mwy effeithiol. Nododd yr hyn a ddysgwyd o'r gweithdy hwn fod angen darn mwy manwl o waith, a dyna fyddai'r gwerthusiad annibynnol ffurfiol yn yr adroddiad hwn yn ei wneud. Felly, penderfynwyd gohirio unrhyw waith monitro pellach gan Lywodraeth Cymru nes i'r gwerthusiad hwn gael ei gynnal ac argymhellion gael eu gwneud.

#### 2.1.6 Data hysbysebion swyddi

Er mwyn ategu'r adolygiad o ddata monitro, cynhaliwyd adolygiad o hysbysebion swyddi i ddeall dull gweithredu'r polisi yn ôl y gyfradd gyflog fesul awr a hysbysebwyd ar gyfer rolau gweithwyr cymdeithasol.

Defnyddiwyd gwefan Gofalwn.Cymru i ddod o hyd i hysbysebion ar gyfer rolau gweithwyr gofal cymdeithasol. Lluniwyd rhestr hir o hysbysebion swyddi byw o dudalen we Gofalwn.Cymru, a oedd yn weithredol rhwng 19-20 Mehefin 2024, y credwyd eu bod yn gymwys ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol. Y prif faen prawf a ddefnyddiwyd i asesu cymhwystra oedd a oedd angen cofrestru'r rôl gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2024). Fodd bynnag, nid oedd llawer o hysbysebion swyddi yn nodi'r gofyniad hwn, ac nid oedd rhai yn cynnwys gwybodaeth fanwl.

Cytunodd Llywodraeth Cymru a Cordis Bright i gynnwys pob hysbyseb swydd yn y sampl oni bai bod rheswm dilys dros eu heithrio, megis bod y rôl yn anghymwys yn ôl canllawiau'r llywodraeth neu'n swydd uwch (e.e. cynorthwyydd gofal uwch), a fyddai fel arfer uwchlaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Nodwyd bod 114 o hysbysebion swyddi allan o 404 a oedd yn fyw rhwng 19-20 Mehefin 2024 yn gymwys ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol. Tynnwyd data o'r holl hysbysebion hyn, a gellid pennu neu gyfrifo cyfradd gyflog fesul awr ar gyfer 91 ohonynt.

### 2.2 Dadansoddiad

#### 2.2.1 Dadansoddi data meintiol

Dadansoddwyd data a gasglwyd drwy'r arolwg derbynwyr taliadau uniongyrchol yn Excel, i ddeall faint o dderbynwyr oedd yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w cynorthwyydd personol, os nad oeddent yn gwneud hynny, pam, ac os oeddent yn talu'r Cyflog Byw

Gwirioneddol, a oedd hyn o ganlyniad i'r polisi. Cafodd data a gasglwyd o'r data hysbysebion swyddi ei ddadansoddi yn Excel hefyd, i ddeall faint o sefydliadau oedd yn hysbysebu rolau sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf i weithwyr gofal, neu o fewn eu graddfa gyflog.

#### 2.2.2 Dadansoddi data ansoddol

Cafodd y dystiolaeth ansoddol a gasglwyd drwy gyfweliadau a gweithdai gyda rhanddeiliaid ei dadansoddi'n thematig gan aelod dynodedig o'r tîm a nododd themâu allweddol, pethau cyffredin a gwahaniaethau mewn ymatebion. Roedd hon yn broses ailadroddus, gan ddefnyddio data cychwynnol a gasglwyd i sefydlu themâu, a defnyddio'r themâu hyn i barhau i archwilio data pellach. Mewn gwirionedd, mae hyn yn caniatáu cymhariaeth gyson o'r themâu ac yn sicrhau bod unrhyw ddamcaniaethau neu farn wedi'u cysylltu'n agos â'r data y maent yn cael eu datblygu ohono. Yna cafodd hyn ei graffu, ei herio a'i adolygu gan y tîm ymchwil ehangach (mae gan bob un ohonynt fynediad at y data gwreiddiol). Dadansoddwyd ymatebion testun agored yn yr arolwg derbynwyr DP hefyd yn thematig, i nodi unrhyw batrymau a themâu ailadroddus o fewn yr ymatebion, ac i gyd-destunoli'r canfyddiadau meintiol.

#### 2.2.3 Triongliad

Defnyddiwyd y data meintiol ac ansoddol i ateb y cwestiynau ymchwil, yn hytrach na chyflwyno'r gwahanol ffynonellau data mewn 'seilos'. Blaenoriaethwyd data â pherthnasedd uchel a chysondeb uchel o ran barn. Mewn achosion lle casglwyd data â pherthnasedd uchel ond cysondeb isel o ran barn, roedd y ffocws ar ddatrys pam roedd yr ystod hon o ran barn yn bodoli. Lle roedd gan ddata gysondeb uchel o ran barn ond perthnasedd isel i'r cwestiwn ymchwil, archwiliwyd hyn ymhellach gan y gall nodi meysydd o ganlyniadau anfwriadol neu annisgwyl (cadarnhaol a negyddol). Cafodd y canfyddiadau eu gwirio am synnwyr drwy drafodaethau o fewn y tîm ymchwil i wneud penderfyniadau ar sut i gyflwyno'r wybodaeth a gasglwyd.

#### 2.2.4 Heriau a chyfyngiadau gwerthuso

Roedd lefel uchel o gysondeb ar draws y dulliau ymchwil ynghylch y cryfderau a'r heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.

Fodd bynnag, rhaid ystyried heriau methodolegol wrth ddehongli canfyddiadau'r adroddiad. Mae'r heriau hyn yn cynnwys:

##### 2.2.4.1 Enwebiadau Darparwyr gan Awdurdodau Lleol ac Ymgysylltu â Darparwyr

Gofynnwyd i awdurdodau lleol enwebu darparwyr y credant y byddent yn ymgysylltu â'n gwerthusiad. O ganlyniad, efallai eu bod wedi dewis darparwyr sy'n ymgysylltu mwy ag awdurdodau lleol, a allai fod yn wahanol i'r rhai sy'n ymgysylltu llai. Yn ogystal, dewisodd rhai darparwyr gymryd rhan yn y gweithdai eu hunain, sy'n golygu bod y rhai sydd â diddordeb mewn trafod y Cyflog Byw Gwirioneddol ac sy'n fwy tebygol o fod yn ei dalu neu'n ceisio ei dalu yn fwy tebygol o fod yn rhan o'r drafodaeth. Mae'n debygol bod hyn yn eithrio grŵp o ddarparwyr nad ydynt yn ymgysylltu â'r polisi.

#### 2.2.4.2 Arolwg Ar-lein gyda Derbynwyr Taliadau Uniongyrchol

Cynhaliwyd arolwg ar-lein gyda derbynwyr taliadau uniongyrchol, wedi'i ddosbarthu'n bennaf drwy e-bost gan awdurdodau lleol, gyda rhai yn anfon llythyrau hefyd. Cydnabyddir nad oedd gan bob derbynnydd gyfeiriadau e-bost ar gael, naill ai oherwydd nad oeddent yn defnyddio'r dull hwn neu oherwydd nad yw'r awdurdod lleol wedi eu cofnodi. Gallai hyn fod wedi cyfyngu ar nifer yr ymatebion i'r arolwg. Yn ogystal, efallai y bydd rhai unigolion yn cael trafferth cyrchu a chwblhau arolwg ar-lein. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, cynigiwyd cymorth ffôn, a manteisiodd dau unigolyn ar y cynnig hwn.

#### 2.2.4.3 Data ddim ar gael o Ffurflenni Monitro

Ni ellid trosglwyddo ffurflenni monitro chwarterol a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu i Cordis Bright gan nad oeddent yn anhysbys, felly dim ond cyflwyniadau cryno o adolygiadau y gellid eu hadolygu. Ar ben hynny, nid oedd modd cael mynediad at unrhyw ddata monitro ar ôl y flwyddyn gyntaf o weithredu. Felly, cyfyngodd hyn ar y dadansoddiad o unrhyw ddata gweithredu cenedlaethol.

#### 2.2.4.4 Ansawdd Data Hysbysebion Swyddi

Tynnwyd data o hysbysebion swyddi ar wefan Gofalwn.Cymru; fodd bynnag, roedd yr wybodaeth a oedd ar gael yn brin ac o ansawdd gwael yn aml, gan gyfyngu ar y dadansoddiadau.

# 3. Dull gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol

## 3.1 Trosolwg

Mae'r bennod hon yn amlinellu sut mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol wedi'i roi ar waith yn ymarferol. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar gyfweliadau â rhanddeiliaid strategol cenedlaethol a gweithdai gyda darparwyr gofal a chomisiynwyr gofal o bob cwr o Gymru.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu bod y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'i weithredu'n llwyddiannus fel y cynlluniwyd yn wreiddiol. Mae'r cyflwyniad yn cyd-fynd â'r Theori Newid a ddatblygwyd ar gyfer y polisi yng Ngwanwyn 2024, ddwy flynedd ar ôl dechrau gweithredu (gweler Atodiad A).  Dangosodd mwyafrif y rhanddeiliaid, gan gynnwys llunwyr polisi, comisiynwyr gofal a darparwyr, ddealltwriaeth gyffredin o sut roedd y polisi wedi'i weithredu.

Mae dadansoddiad o effeithiolrwydd dull gweithredu'r polisi wedi'i gynnwys ym Mhennod 4.

## 3.2 Gosod y Gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol

Penderfynir ar y gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol bob blwyddyn gan yr Independent Living Wage Commission, ar ran y Living Wage Foundation (Living Wage Foundation, n.d.). Mae'r Independent Living Wage Commission yn gorff sy'n cynnwys cyflogwyr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig, arbenigwyr ar gyflog isel, gan gynnwys y Resolution Foundation, a chynrychiolwyr undebau. Mae'r comisiwn yn rhydd o ddylanwad gwleidyddol.

Mae'r gyfradd gyflog fesul awr yn cael ei chyfrifo yn seiliedig ar fasged graidd o nwyddau a gwasanaethau mae trigolion y DU yn eu hystyried yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion bob dydd. Mae'r hyn sy'n mynd i mewn i'r fasged o nwyddau yn cael ei adolygu gan grwpiau ffocws bob dwy flynedd (Living Wage Foundation, 2024).

Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei ddiweddaru bob blwyddyn, gyda'r gyfradd newydd yn cael ei chyhoeddi yn gynnar ym mis Hydref bob blwyddyn, ac mae disgwyl i gyflogwyr sy'n ymrwymo iddo gyflwyno'r gyfradd newydd o fewn chwe mis i'r cyhoeddiad blynyddol.

### 3.2.1 Cyd-destun: Y Gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol o 2020-2024

Mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi cynyddu'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf, gan adlewyrchu'r cynnydd mewn costau byw a chwyddiant, ers i Lywodraeth Cymru roi ei hymrwymiad polisi.

Mae'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), dangosydd cyffredin ar gyfer chwyddiant sy'n archwilio cyfartaledd prisiau basged o nwyddau a gwasanaethau defnyddwyr, wedi amrywio dros y pum mlynedd diwethaf, gyda chynnydd sylweddol ym mlwyddyn ariannol 2022/23 pan gyflwynwyd y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol am y tro cyntaf.

Mae'r cyfraddau a'r cynnydd ar gyfer y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol, yn ogystal â'r newidiadau yn y CPI, rhwng 2020/21 a 2024/25 i'w gweld isod yn Nhabl 1. Dechreuodd y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol yn 2022/23.

Mae Tabl 1 yn dangos, ers i Lywodraeth Cymru ymrwymo i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol, fod cynnydd blynyddol o fwy na 10% wedi bod yn y CPI a bod y gwahaniaeth mewn gwerth rhwng y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi cynyddu. Noder bod y Cyflog Byw Cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi ar 1 Ebrill bob blwyddyn, a'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref bob blwyddyn. Mae'r gwahaniaeth rhwng y Cyflog Byw Gwirioneddol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r ffigurau a fyddai'n gywir ar y dyddiad y cyhoeddir y Cyflog Byw Gwirioneddol (h.y. cymharir Cyflog Byw Gwirioneddol 23/24 â Chyflog Byw Cenedlaethol 23/24).

Yn ogystal, wrth i'r Cyflog Byw Gwirioneddol gynyddu, mae'n debygol y bydd wedi cipio cyfran fwy o'r gweithlu, gan fod y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi cynyddu ar gyfradd gyflymach na chyflogau yn yr economi gyfan, felly mae'n debygol y bydd y gyfradd wedi dal i fyny â gweithwyr sy'n cael ychydig yn fwy na'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae hyn yn golygu bod nifer y bobl mae'r polisi'n berthnasol iddynt hefyd yn debygol o fod wedi tyfu.

**Tabl 1: Y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol o 2020 i 2024**

| Blwyddyn ariannol | Cyfradd y Cyflog Byw Cenedlaethol (1 Ebrill) | Y cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol o'r flwyddyn flaenorol | Cyfradd y Cyflog Byw Gwirioneddol (1 Hydref) | Y cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol o'r flwyddyn flaenorol | Y gwahaniaeth gwerth arian parod rhwng y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol (Hydref) | Y cynnydd yn y CPI o o'r flwyddyn flaenorol (1 Ebrill) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2020/21 | £8.72 | 6.2% | £9.50 | 2.2% | £0.78 | 0.8% |
| 2021/22 | £8.91 | 2.2% | £9.90 | 4.2% | £0.99 | 1.5% |
| 2022/23 | £9.50 | 6.6% | £10.90 | 10.1% | £1.40 | 9.0% |
| 2023/24 | £10.42 | 9.7% | £12.00 | 10.1% | £1.58 | 8.7% |
| 2024/25 | £11.44 | 9.8% | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | 2.3% |

(Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024)

## 3.3 Cyfrifo'r cyllid ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol

Gweithredwyd y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol yn gyntaf gan Lywodraeth Cymru o fis Ebrill 2022. Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd weithredu'r polisi. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid o tua £113 miliwn i awdurdodau lleol yn ystod 2022-23 a 2023-24 i gefnogi'r ymrwymiad hwn. Er mwyn parhau â'r ymrwymiad hwn yn 2024-25, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod cyllid o fewn Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Leol i dalu costau'r Cyflog Byw Gwirioneddol o £12 yr awr.

Nod y cyllid ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol yw:

- cwmpasu cynnydd yng nghyflogau gweithwyr gofal cymdeithasol gan y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol (h.y. y gwahaniaeth rhwng y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol, ond nid y cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol).
- talu costau ychwanegol cysylltiedig, megis cyfraniadau Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, lwfansau amser teithio a thâl gwyliau.

Rhoi rhywfaint o gymorth i ddarparwyr ddiogelu'r gwahaniaethau mewn cyflogau rhwng gweithwyr gofal cymdeithasol a'u rheolwyr neu eu goruchwylwyr.

Mae'r cynnydd yn y cyllid a ymrwymwyd yn debygol o adlewyrchu'r twf yn y bwlch rhwng y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol mewn termau arian parod (gweler Tabl 1) a'r nifer uwch o weithwyr gofal cymdeithasol y bydd y polisi'n berthnasol iddynt wrth i'r llawr cyflog godi.

Ar y dechrau, roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd weithio gyda darparwyr i bennu faint o gyllid oedd ei angen i gyflawni'r ymrwymiad. Hefyd, roedd y canllawiau'n amlinellu'r dystiolaeth yr oedd yn ofynnol i ddarparwyr ei chyflwyno i hawlio taliad ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol a'r costau cysylltiedig, yn ogystal â chanllawiau ar gyfer senarios penodol megis ar gyfer gwasanaethau sy'n gweithredu ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

Yn y blynyddoedd dilynol, cyfrifodd Llywodraeth Cymru gost cyllid ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol ar sail y fformiwla a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn gyntaf o weithredu, gan ddarparu'r cyllid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn unol â hynny mewn ffrydiau cyllido ehangach.

## 3.4 Llywodraethu a chanllawiau polisi

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i gomisiynwyr ar weinyddu'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol (Llywodraeth Cymru, 2024a). Datblygwyd y canllawiau hyn yn ailadroddus, a byddent yn cael eu diweddaru pan fyddai ymholiadau neu heriau penodol yn cael eu nodi. Yn 2022, cafwyd trafodaethau a sgyrsiau yn cynnwys darparwyr gofal ac Undebau Llafur, ynghyd â'r awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

Roedd y canllawiau'n amlinellu'r meini prawf i weithiwr gofal cymdeithasol fod yn gymwys i gael y Cyflog Byw Gwirioneddol, pa gymorth ariannol fyddai ar gael i ddarparwyr, a sut y dylid ei ddefnyddio.

Roedd un maes ar gyfer eglurhad a gododd yn gynnar yn ymwneud â darparwyr sy'n cefnogi plant o Loegr yng Nghymru, ac a ydynt yn gymwys ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol ai peidio. Darparodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ailadroddol ar hyn a eglurodd fod y polisi ar gyfer staff a ariennir gan awdurdodau lleol yng Nghymru ac nad yw'n cael ei benderfynu yn ôl cenedligrwydd y plant y maent yn eu cefnogi.

Yn 2022, sefydlwyd grŵp llywio gyda chynrychiolaeth o ddarparwyr gofal, cynrychiolwyr Undebau Llafur, Fforwm Gofal Cymru, awdurdodau lleol a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. Cynlluniwyd y grŵp llywio i oruchwylio a gwella dull gweithredu'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol.

> “Mae llawer o grwpiau o randdeiliaid o'r llywodraeth, awdurdodau lleol, undebau a chynrychiolwyr eraill wedi bod yn rhan o ddatblygu'r polisi a'r canllawiau - mae hyn wedi bod yn llwyddiant allweddol.” (Rhanddeiliad strategol cenedlaethol)

## 3.5 Dosbarthu cyllid i gomisiynwyr a darparwyr gofal

Dosbarthwyd y mwyafrif o'r cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, gyda lleiafrif yn cael ei ddarparu i fyrddau iechyd y GIG. Er enghraifft, o'r £70 miliwn o gyllid a ddynodwyd i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yn 2023-24, aeth £55 miliwn i awdurdodau lleol a £15 miliwn i fyrddau iechyd.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ar gyfer gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i bob awdurdod lleol yng Nghymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw, er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol. Mae'r cyllid hwn wedyn yn cael ei rannu rhwng gwasanaethau awdurdodau lleol ac yn cael ei drosglwyddo i ddarparwyr gofal cymdeithasol a ariennir gan awdurdodau lleol drwy'r broses gomisiynu safonol, sy'n pennu'r cyfraddau ffioedd mae awdurdodau lleol yn eu talu i ddarparwyr.

Nododd darparwyr fod eu profiad o gytuno ar ffioedd, mewn perthynas â'r broses a'r canlyniad, yn amrywio yn ôl awdurdod lleol ac yn ôl gwasanaeth. Archwilir hyn ymhellach ym Mhennod 4.

Nid yw'r cyllid ychwanegol hwn ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol wedi'i neilltuo'n benodol ar gyfer y polisi o fewn y Grant Cynnal Refeniw. Mae'r Grant Cynnal Refeniw yn grant heb ei neilltuo mae awdurdodau lleol Cymru yn ei ddefnyddio i ariannu ystod o wasanaethau, ac mae ganddynt yr ymreolaeth i wneud penderfyniadau ynghylch sut mae'r cyllid hwn yn cael ei ddosbarthu.

Mae cyllid y Grant Cynnal Refeniw yn cynnwys y cyllid ar gyfer gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, a hefyd y gweithrediadau a'r gwasanaethau o ddydd i ddydd mae cynghorau lleol yn eu darparu, megis addysg, gwasanaethau cymdeithasol, tai a seilwaith, i enwi ond rhai.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i fyrddau iechyd dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol am ofal y maent yn ei gomisiynu drwy gyllidebau iechyd ac mae hyn yn cael ei drosglwyddo i ddarparwyr gofal cymdeithasol a ariennir gan fyrddau iechyd drwy'r broses gomisiynu.

Mae [Cod Ymarfer newydd ar gyfer comisiynu gofal a chymorth] yng Nghymru wedi'i ddatblygu a bydd yn dod i rym o 1 Medi 2024 ([Llywodraeth Cymru, 2024b]). O fewn y cod ymarfer hwn, rhaid i gomisiynwyr gofal sicrhau bod darparwyr yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a gofynnwyd iddynt fesur hyn drwy brosesau caffael a monitro contractau. Nid oedd hyn wedi bod yn weithredol yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y gwerthusiad hwn.

## 3.6 Dosbarthu cyllid i dderbynwyr taliadau uniongyrchol sydd â chynorthwywyr personol

Yng Nghymru, mae taliadau uniongyrchol yn ffordd y gall awdurdodau lleol helpu unigolyn i ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth, drwy ganiatáu i dderbynwyr gyflogi cynorthwyydd personol i ddarparu gofal a chymorth uniongyrchol i'r derbynnydd.

Roedd y broses o dderbynwyr taliadau uniongyrchol yn talu eu cynorthwywyr personol yn amrywio'n fawr rhwng awdurdodau lleol. Nid yw rhai derbynwyr taliadau uniongyrchol yn ymdrin yn uniongyrchol â thâl eu cynorthwywyr personol, ac nid oedd ganddynt fawr o ymwybyddiaeth o'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol, o'r hyn roedd eu cynorthwywyr personol yn cael eu talu a bod ganddynt unrhyw awdurdod i wneud penderfyniadau ynghylch talu eu cynorthwyydd/cynorthwywyr personol.

Mae hyn oherwydd bod rhai awdurdodau lleol yn defnyddio sefydliad trydydd parti i reoli'r taliadau uniongyrchol ar ran derbynwyr, neu fod yr awdurdod lleol yn rheoli'r taliadau'n fewnol ar eu rhan.

Mewn rhai awdurdodau lleol, mae derbynwyr taliadau uniongyrchol yn rheoli eu taliadau eu hunain, felly maent wedi bod yn rhan o'r broses o wneud newidiadau i gyfradd gyflog eu cynorthwywyr personol, yn aml gydag arweiniad gan eu hawdurdod lleol. Felly, roedd ganddynt fwy o wybodaeth a chyfranogiad yn y Cyflog Byw Gwirioneddol.

## 3.7 Monitro a goruchwylio polisi

Gofynnwyd i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gasglu data bob chwarter ar faint o gyllid a gafodd ei ddarparu a'i drosglwyddo i ddarparwyr a staff a gyflogir yn uniongyrchol er mwyn cyflawni'r ymrwymiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Gwnaed hyn drwy ffurflenni monitro a gasglwyd yn y flwyddyn gyntaf (Ebrill 2022 i Fawrth 2023) o weithredu.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, cwblhawyd y ffurflenni gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Fodd bynnag, pan oedd y ffurflenni wedi'u cwblhau, roeddent yn aml yn anghyflawn neu'n cynnwys amcangyfrifon ar gyfer rhywfaint o'r data y gofynnwyd amdano. Roedd hyn yn cynnwys:

- faint o gyllid sydd wedi'i drosglwyddo i ddarparwyr ar gyfer codiadau i'r Cyflog Byw Gwirioneddol
- faint o ddarparwyr oedd yn gymwys i gael cynnydd yn eu ffioedd i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w gweithwyr

faint o ddarparwyr sydd wedi codi cyflog eu gweithiwr o ganlyniad i gyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Ar ôl y flwyddyn gyntaf, bu gostyngiad sylweddol yng nghyfraddau cwblhau'r ffurflenni monitro. Cafodd y broses o gasglu ffurflenni monitro ei hatal o fis Rhagfyr 2023, fel y trafodwyd yn adran 2.1.5.

# 4. Pa mor effeithiol mae'r polisi wedi'i weithredu

## 4.1 Trosolwg

Mae'r bennod hon yn seiliedig ar dystiolaeth o weithdai gyda darparwyr a chomisiynwyr gofal, adolygiad o swyddi gofal cymdeithasol sy'n gymwys ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol a hysbysebwyd yn gyhoeddus, ac arolwg o dderbynwyr taliadau uniongyrchol sy'n cyflogi cynorthwyydd personol.

Mae'r bennod hon yn amlinellu bod y Cyflog Byw Gwirioneddol yn debygol o fod wedi cyrraedd y rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal yr oedd yn anelu at eu cyrraedd. I'r perwyl hwn, mae'r polisi wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cyfran anhysbys o weithwyr gofal cymdeithasol a chynorthwywyr personol yn parhau i gael eu talu islaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Nid yw'n glir chwaith a yw'r polisi hwn wedi cael effaith ar weithwyr gofal cymdeithasol mewn darparwyr sector annibynnol nad ydynt yn cael cyllid cyhoeddus.

Mae'r bennod hon hefyd yn nodi bod cymysgedd o hwyluswyr ac atalyddion i weithredu'r polisi. Ansawdd y berthynas rhwng darparwyr a chomisiynwyr gofal oedd yr hwylusydd pwysicaf, ac ystyriwyd mai pwysau cyllid i dalu'r costau gofal ehangach nad ydynt yn ymwneud â'r Cyflog Byw Gwirioneddol oedd y rhwystr mwyaf. Roedd safbwyntiau cymysg ynghylch a ddarparwyd cyllid digonol ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol.

## 4.2 Mae'r polisi'n cael ei gefnogi'n dda gan bob parti

Bu cefnogaeth gref i'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol ymhlith yr holl randdeiliaid, gan gynnwys rhanddeiliaid strategol cenedlaethol, comisiynwyr gofal, darparwyr a derbynwyr taliadau uniongyrchol. Mae'r cytundeb eang hwn ar bwysigrwydd y polisi wedi golygu nad oedd fawr o angen perswâd wrth ddechrau ei weithredu.

> “Mae pawb yn cefnogi'r Cyflog Byw Gwirioneddol - nid amharodrwydd sy'n gyfrifol am unrhyw broblemau. Mae consensws bod angen ei dalu.”
> (Rhanddeiliad strategol cenedlaethol)

Mae parodrwydd ar bob ochr o hyd i geisio gwneud i'r polisi hwn weithio ac, er gwaethaf rhai o'r heriau cyd-destunol a archwilir yn y bennod hon, mae hyn wedi hyrwyddo cydweithrediad effeithiol.

## 4.3 Mae mwy o weithwyr gofal cymdeithasol yn cael Cyflog Byw Gwirioneddol, ond nid pawb

Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, mae'n ymddangos bod mwyafrif y gweithwyr gofal cymdeithasol yn cael Cyflog Byw Gwirioneddol neu fwy, a bod y nifer hwn wedi tyfu ers cyflwyno'r polisi. Nid oes gennym dystiolaeth bendant ynghylch a yw'n amrywio ar draws gwahanol awdurdodau lleol a mathau o ddarparwyr.

Mae tystiolaeth hefyd fod rhai staff eraill sy'n gweithio yn y sector gofal (e.e. glanhawyr, staff cynnal a chadw, staff arlwyo ac ati) hefyd wedi cael codiad cyflog i fod yn gydradd â chydweithwyr.

Fodd bynnag, nid yw'r polisi wedi cyrraedd pob gweithiwr gofal cymdeithasol fel y bwriadwyd. Er gwaethaf hyn, mae gweithredu'r polisi wedi bod yn llwyddiant mawr hyd yma.

#### 4.3.1 O drafodaethau gyda chomisiynwyr a darparwyr gofal

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd o drafodaethau gyda chomisiynwyr a darparwyr gofal yn awgrymu bod y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'i weithredu gan ddarparwyr ar y cyfan, a bod y gweithwyr gofal cymdeithasol cymwys wedi cael y Cyflog Byw Gwirioneddol.

Dywedodd sawl darparwr eu bod bellach yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w holl staff, gan gynnwys staff nad ydynt yn staff gofal mewn cartrefi gofal nad ydynt yn rhan o'r polisi, megis staff cegin a domestig. Nid oedd hyn yn un o ganlyniadau bwriadol y polisi, ond roedd rhai darparwyr a chomisiynwyr gofal yn teimlo ei fod yn fudd cadarnhaol.

> “Doedden ni ddim yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol cyn 2022. Fe wnaethon ni fachu ar y cyfle yn 2022 i ddechrau ei dalu... Allen ni ddim â gadael ein staff cegin heb y Cyflog Byw Gwirioneddol gan eu bod nhw i gyd yn gweithio fel tîm, felly ni fyddai'n deg. Fe wnaethon ni benderfynu talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'r holl staff ar draws y cartrefi ac rydyn ni wedi cynnal y gwahaniaethau fel bod staff gofal yn cael mwy na'r Cyflog Byw Gwirioneddol" (Darparwr gofal)

Dywedodd nifer llai o ddarparwyr nad oeddent yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w staff. O fewn y grŵp hwn, roedd y mwyafrif wedi dechrau talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol pan gyflwynwyd y polisi yn 2022, ond yn nodi nad oeddent yn gallu fforddio parhau i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn y blynyddoedd ers hynny.

> “Fe wnaethon ni weithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn 2022... Roedd yn hawdd iawn i ddechrau, ond daeth y daith yn fwyfwy anodd... Fe lwyddon ni i'w dalu a chydbwyso ein llyfrau y llynedd. Ond eleni dydyn ni ddim wedi gallu talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.” (Darparwr gofal)

Dywedodd rhai comisiynwyr a darparwyr gofal eu bod wedi clywed am ddarparwyr nad oeddent yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i unrhyw un o'u staff ac nad oeddent wedi gwneud hynny ar unrhyw adeg ers cyflwyno'r polisi.

> “Rydyn ni wedi cael problemau gyda darparwr gofal cartref nad yw'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Rhannodd yr unigolyn hwn [aelod o staff] hynny yn gyfrinachol gyda ni. Fe wnaethon ni ofyn i'r darparwr lofnodi ymwadiad i ddweud ei fod yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf i'w staff, ond mae aelod o staff wedi dweud nad yw'n gwneud hynny.” (Comisiynydd gofal)

> “Rydw i wedi clywed am ddarparwyr yn codi pwynt mewn cyfarfodydd gydag awdurdodau lleol ac yn dweud 'os na fyddwn ni'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, beth ydych chi'n mynd i'w wneud?' ond dydw i ddim yn siŵr a wnaethon nhw wneud hynny.” (Darparwr gofal)

Nid oedd yn glir chwaith i gomisiynwyr gofal a yw gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n cael eu cyflogi gan ddarparwyr sy'n cael eu cyllid cyfan neu ran ohono drwy gyfraniadau preifat (ffioedd a delir gan ddefnyddwyr gofal cymdeithasol neu eu teuluoedd, neu incwm a godwyd) yn talu Cyflog Byw Gwirioneddol i staff. Yng Nghymru, mae comisiynwyr gofal (awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd fel arfer) yn comisiynu gwasanaethau gan ddarparwyr allanol, sydd wedyn yn darparu'r gwasanaethau hyn yn seiliedig ar gytundebau. Felly, os nad yw'r darparwr yn gweithio gyda'r awdurdod lleol, ni fydd gan yr awdurdod lleol unrhyw fanylion am gyfraddau cyflog y darparwr hwnnw.

Yng Nghymru, mae amcangyfrifon amrywiol o faint o bobl sy'n ariannu eu gofal cymdeithasol eu hunain, ond amcangyfrifir bod 32% o breswylwyr cartrefi gofal a 21% o oedolion hŷn sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cartref neu ofal dydd yn gwneud hynny (ICF, 2018), felly efallai y bydd yna grŵp sylweddol o weithwyr gofal cymdeithasol yn gweithio mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol hunan-ariannu y mae'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol yn eu cwmpasu.

Mae'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol yn cwmpasu'r holl weithwyr gofal cofrestredig ac nid yw'n mynnu bod hyn yn amrywio yn dibynnu ar sut mae gofal yn cael ei ariannu (Llywodraeth Cymru, 2024a). Fodd bynnag, heb y broses gomisiynu nid oes unrhyw fecanwaith i orfodi'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer darparwyr preifat y mae eu cleientiaid yn ariannu eu gofal eu hunain; a nodir fel her sylweddol yn y canllawiau polisi (Llywodraeth Cymru, 2024a).

> “Un grŵp nad yw'n cael ei ystyried yno yw'r bobl sy'n talu am y gofal h.y. yr awdurdod lleol a thalwyr preifat. Ar gyfer cartref gofal, does dim cap ar ffioedd. Mae cyfraddau wedi codi'n sylweddol. Os ydych chi'n talu am gost lawn eich gofal, bydd y gost honno bron wedi dyblu mewn pum mlynedd. Bydd costau'n codi hyd yn oed yn fwy. Byddai'r grŵp hwn yn cael ei effeithio, ond nid yw'n fuddiolwr.” (Comisiynydd Gofal)

Yn seiliedig ar y data sydd ar gael, ni ellir dweud a yw'r polisi wedi arwain at y grŵp hwn o staff yn cael y Cyflog Byw Gwirioneddol ac yn cael codiad cyflog ac, os felly, drwy ba fecanwaith mae hyn wedi digwydd neu sut mae'n cael ei ariannu. Bydd effaith y polisi'n cael ei archwilio ymhellach fel rhan o'r gwerthusiad o effaith.

### 4.3.2 O hysbysebion swyddi ar gyfer rolau gweithwyr gofal cymdeithasol

Cafwyd gwybodaeth o 91 o hysbysebion swyddi a dadansoddwyd data ar gyfer rolau gofal cymdeithasol cymwys yng Nghymru, gyda 74% (n=67) o'r rolau'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf. O'r 26% o'r rolau nad ydynt yn hysbysebu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf:

- nid oedd 12% o'r rolau (n=11) yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf, gan hysbysebu cyfradd uchaf a oedd yn cynnwys y Cyflog Byw Gwirioneddol neu fwy.
- roedd gan 2% o rolau gyfradd uchaf fesul awr a hysbysebwyd islaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol (n=2)

- nid oedd gan 12% o'r rolau unrhyw ddata ar gael ar y gyfradd uchaf fesul awr (n=11)

Yn seiliedig ar y ffigurau hyn, amcangyfrifir nad yw lleiafrif o weithwyr gofal cymdeithasol yn derbyn Cyflog Byw Gwirioneddol, gyda'r rhagdybiaeth yn seiliedig ar hysbysebion swyddi nad ydynt yn cynnig y Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf. Mae hyn yn gyson â theimlad darparwyr a chomisiynwyr gofal a adroddodd fod mwyafrif y darparwyr yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ond nad yw'r polisi wedi cael ei fabwysiadu'n llwyr.

O'r 24 o'r rolau nad ydynt yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf, roedd y rolau hyn mewn cartrefi preswyl neu nyrsio ar gyfer oedolion o oedran gweithio (n=7), cartrefi plant (n=4), gofal cartref neu fyw â chymorth i blant (n=1), gofal cartref neu fyw â chymorth lle nad oedd y grŵp cleientiaid wedi'i nodi (n=9), neu swyddi a hysbysebwyd ar draws sawl math o wasanaethau (gofal cartref a byw â chymorth; n=3). Mae hyn yn dangos nad yw peidio â thalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn fater sy'n benodol i un math o ddarpariaeth, ond yn hytrach yn nodwedd ar draws gwahanol leoliadau a mathau o wasanaethau.

## 4.4 Mae mwy o gynorthwywyr personol yn cael y Cyflog Byw Gwirioneddol

Pan ofynnwyd i dderbynwyr taliadau uniongyrchol faint y maent yn ei dalu am eu cynorthwywyr personol, o'r 186 a ymatebodd, dywedodd 79% (n=147) eu bod yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w cynorthwywyr personol ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'r dystiolaeth ar gyfer cyflog gweithwyr gofal cymdeithasol, sy'n awgrymu nad oes anghysondeb penodol rhwng gweithwyr mewn gwahanol rolau.

Roedd data ar gyflog fesul awr ar gael ar gyfer 186 o'r 276 o ymatebwyr i'r arolwg, gan na lwyddom i gyfrifo'r gyfradd fesul awr ar gyfer 6 ymatebydd; nid oedd 40 o'r ymatebwyr yn gwybod faint roeddent yn ei dalu i'w cynorthwywyr personol; roedd yn well gan 11 o'r ymatebwyr beidio â dweud; ac ni wnaeth 33 o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

Pan ofynnwyd i dderbynwyr taliadau uniongyrchol a oeddent wedi cynyddu cyflogau eu cynorthwywyr personol ers i'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2022, roedd 71% (n=195) o'r 273 o ymatebwyr wedi cynyddu faint roeddent yn ei dalu i'w cynorthwywyr personol. Noder er bod 195 o ymatebwyr wedi dweud eu bod wedi cynyddu cyflogau eu cynorthwywyr personol ers y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol, dim ond ar gyfer 192 o'r rhain yr oedd data pellach ar gael.

O'r rhai a gynyddodd gyflogau eu cynorthwywyr personol:

- roedd 55% wedi cynyddu cyflogau i'r Cyflog Byw Gwirioneddol neu fwy (n=106)
- roedd 27% wedi cynyddu cyflogau, ond islaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol (n=51)
- roedd 12% yn ansicr faint oedd y cynnydd mewn cyflogau (n=24)
- roedd yn well gan 6% beidio â dweud (n=11)

Ar gyfer y derbynwyr taliadau uniongyrchol hynny nad oeddent wedi cynyddu cyflog eu cynorthwywyr personol, roedd hyn yn fwyaf cyffredin oherwydd eu bod eisoes yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol (43%; n=15) neu am resymau eraill (37%; n=13), megis:

- sefydliad arall yn talu eu cynorthwyydd personol felly nid ydynt yn ymdrin â'r cyflog;
- eu bod yn talu'r hyn mae eu hawdurdod lleol yn ei argymell ac yn ei gyfrannu i'w cynorthwyydd personol;
- nad oeddent yn credu mai eu penderfyniad nhw oedd hynny neu nad oeddent yn gwybod sut i gynyddu cyflog eu cynorthwyydd personol.

> “Hoffwn i dalu mwy i fy nghynorthwyydd personol, ond mae angen help a chyngor arna i ar sut i wneud hyn.” (Derbynnydd taliadau uniongyrchol)

## 4.5 Mae'r polisi wedi cynyddu nifer y gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n cael y Cyflog Byw Gwirioneddol, ond ni allwn ni ddweud faint

Mae tystiolaeth gref o weithdai ymgynghori a chyfweliadau â rhanddeiliaid a'r arolwg o dderbynwyr taliadau uniongyrchol bod y polisi i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu talu ar y gyfradd uwch hon.

Fodd bynnag, mae'n heriol asesu union gyfraniad y polisi hwn at unrhyw gynnydd yn nifer y gweithwyr gofal cymdeithasol a chynorthwywyr personol sydd bellach yn cael Cyflog Byw Gwirioneddol ond nad oeddent yn ei gael o'r blaen.

Mae hyn oherwydd bod diffyg mecanwaith ar gyfer cipio data cyflog ar lefel unigolyn neu sefydliad. Er bod ffurflen fonitro wedi'i chyflwyno ym mlwyddyn gyntaf Llywodraeth Cymru o weithredu'r polisi, roedd ei chyfradd gwblhau yn wael, gyda data'n anghyflawn neu wedi'i amcangyfrif ar gyfer sawl cwestiwn. Ar ben hynny, nid yw'r ffurflen wedi'i hailddosbarthu ers mis Rhagfyr 2023, felly nid oes dealltwriaeth gyfunol ar lefel awdurdod lleol na chenedlaethol.

Roedd diffyg data sylfaenol hefyd ar i ba raddau roedd y Cyflog Byw Gwirioneddol eisoes yn cael ei dalu i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru cyn cyflwyno'r polisi. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd mesur maint y gwahaniaeth a wnaeth y polisi.

> “Roedd canran dda o'n darparwyr eisoes yn talu ar y gyfradd hon cyn cyflwyno'r polisi.” (Comisiynydd gofal)

> “Dydyn ni ddim yn gwybod y sefyllfa cyn i ni ddechrau, felly mae'n anodd asesu'r effaith neu'r newid ar y sector.” (Comisiynydd gofal)

Er bod rhai darparwyr wedi cynyddu cyflogau gweithwyr gofal cymdeithasol i'r Cyflog Byw Gwirioneddol o fis Ebrill 2022, nododd rhai comisiynwyr a darparwyr gofal fod cyfran o ddarparwyr eisoes yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol neu fwy i'w gweithwyr gofal cymdeithasol, cyn i'r polisi gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2022.

> “Fe fuon ni'n talu uwchlaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol am flynyddoedd lawer lle bynnag y bo modd. Ni wnaeth gweithredu'r polisi fawr o wahaniaeth. Fe lwyddon ni i gynyddu ein cyfraddau pan drosglwyddwyd y codiadau, gan fod cyfraddau cyflog eisoes ar waith.” (Darparwr gofal)

### 4.5.1 Y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol yw un o sbardunau buddsoddiad cynyddol mewn cyflogau gweithwyr gofal cymdeithasol

Er bod rhai darparwyr wedi nodi eu bod wedi dechrau talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w staff gofal cymdeithasol o ganlyniad i gyflwyno'r polisi, nododd darparwyr eraill ffactorau eraill a allai fod wedi golygu y byddent wedi dewis talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w gweithwyr cymdeithasol, hyd yn oed pe na bai'r polisi wedi'i gyflwyno. Y ffactorau hyn yw:

**Heriau parhaus gyda recriwtio:** Mae darparwyr yng Nghymru wedi cael trafferth recriwtio digon o staff gofal cymdeithasol i ddarparu eu gwasanaethau. O ganlyniad, gwnaeth llawer o ddarparwyr godi cyflogau i'r gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol neu'n uwch cyn cyflwyno'r polisi yn 2022. Byddai'r duedd hon yn debygol o fod wedi parhau heb gyflwyno'r polisi, a byddai mwy o ddarparwyr wedi symud i'r gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol i helpu gyda heriau recriwtio yn annibynnol yn y cyfnod hwn.

**Argyfwng costau byw:** Mae'r argyfwng costau byw ledled y DU, a ddechreuodd ddiwedd 2021, wedi gweld pris nwyddau hanfodol yn cynyddu'n gyflymach nag incwm, ac nid oes disgwyl i incwm ddychwelyd i lefelau cyn 2021 mewn termau real tan 2027 (Institute for Government, 2022). Gallai hyn fod wedi arwain at ddarparwyr yn codi cyfraddau cyflog yn ystod y cyfnod hwn, yn annibynnol ar y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol. Yn yr un modd, fodd bynnag, efallai y bydd yr argyfwng costau byw hefyd wedi gweithredu fel rhwystr i gyflwyno'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol, o ystyried y pwysau ariannol ehangach sy'n wynebu darparwyr.

**Cystadleuaeth â chyflogwyr cyflog isel eraill:** Dywedodd darparwyr mai un o'r prif resymau dros godi eu cyfraddau cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol neu'n uwch oedd cymell staff rhag peidio gadael eu rolau gofal, o blaid cyflogwyr lleol eraill megis archfarchnadoedd. Mae'r cyflogwyr cystadleuol hyn hefyd yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol neu fwy. Byddai'r cymhelliant hwn i ddarparwyr gofal cymdeithasol godi eu cyfradd gyflog yn parhau heb y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol, felly mae'n debygol y byddai llawer o gyflogwyr wedi codi eu cyflog i geisio cyfateb i'w cystadleuwyr beth bynnag.

Am y rheswm hwn, nid oes modd priodoli cynnydd yn y taliad Cyflog Byw Gwirioneddol yn gyfan gwbl i weithredu'r polisi hwn yn effeithiol. Yn hytrach, cydnabyddir bod y polisi yn debygol o fod wedi bod yn alluogwr ac yn ffactor cyfrannol sylweddol o fewn ystod ehangach o sbardunau.

## 4.6 Mae prinder cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol wedi ei gwneud yn anoddach cymhwyso'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol

Ym marn comisiynwyr a darparwyr gofal, y brif her i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol oedd cyllid.

Nododd rhanddeiliaid polisi cenedlaethol fod Llywodraeth Cymru wedi darparu digon o gyllid i fodloni'r gwahaniaeth mewn costau rhwng y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol, ynghyd â'r costau ychwanegol, megis pensiynau, gwyliau blynyddol ac absenoldeb salwch, amser teithio a thuag at wahaniaethau cyflog.

Nid oedd y farn hon yn cael ei rhannu gan fwyafrif y darparwyr a'r comisiynwyr gofal. Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr a chomisiynwyr gofal fod lefel y cyllid yn ddigonol yn y flwyddyn gyntaf o weithredu'r polisi. Fodd bynnag, yn yr ail flwyddyn o weithredu, nodwyd nad oedd y cyllid a ddarparwyd yn ddigonol i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

> "Rydyn ni wrth ein bodd gan ein bod ni wedi bod eisiau talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ers blynyddoedd ond nad oedden ni'n gallu gwneud hynny. Hoffen ni dalu mwy na'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Rydyn ni'n sefydliad nid-er-elw, felly nid oes gennym ni lawer i syrthio'n ôl arno o ran gallu ariannu ein hunain. Ym Mlwyddyn 1, cawson ni'r cyllid yr oedd ei angen arnon ni gan awdurdodau lleol. Eleni, dydyn ni ddim wedi cael digon o gyllid." (Darparwr Gofal)

> "Ar un llaw, mae Llywodraeth Cymru'n dweud wrthym ni bod digon o gyllid wedi'i ddyrannu a'u bod wedi cyfrif y costau sydd eu hangen. Ond ar y llaw arall, mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn dweud wrthym ni nad oes ganddyn nhw'r cyllid. Mae'n teimlo fel bod darparwyr wedi'u dal yn y canol a phobl yn dweud eu bod nhw eisiau talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ond mai rhywun arall sydd ar fai." (Rhanddeiliad strategol cenedlaethol)

Mae'n ymddangos bod y gwahaniaeth mewn barn wedi'i lywio gan y pwysau ariannu cyd-destunol ar gomisiynwyr a darparwyr gofal, yn ogystal â'r modd mae cyllid ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'i ddosbarthu gan ddefnyddio'r Grant Cynnal Refeniw.

Y gyllideb ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol yn 2023/24 oedd £70m, ac roedd wedi'i chynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw, sy'n dod i tua £5.5bn o gyllid wedi'i ddosbarthu i awdurdodau lleol yng Nghymru, gan ei wneud yn ganran fach o'r setliad cyllid cyffredinol. Nid yw'r cyllid hwn wedi'i ddyrannu'n benodol i ofal cymdeithasol, ond i'r holl wasanaethau a ddarperir gan yr awdurdodau lleol.

O fewn y gyllideb hon, rhaid i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau ynghylch faint y maent yn ei fuddsoddi mewn gwahanol wasanaethau a gweithgareddau, gan gynnwys gofal cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru'n nodi bod y Grant Cynnal Refeniw'n cynnwys cyllid i dalu costau'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol, felly awdurdodau lleol fydd yn penderfynu a ddylid dyrannu cyllid at y diben hwn ai peidio.

Er bod llunwyr polisi cenedlaethol yn hyderus bod y cyllid ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gael, dywedodd comisiynwyr awdurdodau lleol nad yw gwerth y Grant Cynnal Refeniw wedi cadw i fyny â chost comisiynu gofal cymdeithasol, oherwydd cyfuniad o chwyddiant a galw cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol.

> "Bob blwyddyn, rydyn ni'n pennu cyllideb Llywodraeth Cymru a faint sy'n mynd i lywodraeth leol yn fewnol. Mae hyn wedi cynyddu llawer yn ystod y blynyddoedd

diwethaf, ond dim ond tua 2-3% y bydd yn cynyddu y flwyddyn nesaf." (Rhanddeiliad strategol cenedlaethol)

> "[Hepgorwyd: enw'r awdurdod lleol] oedd un o'r ychydig a ddywedodd 'rydyn ni wedi gwneud y dadansoddiad llawn, a dydyn ni ddim yn gallu ei fforddio'. Pe baen nhw i gyd yn onest, dyma beth fydden nhw i gyd yn ei ddweud." (Darparwr gofal)

O ganlyniad, dywedodd darparwyr a chomisiynwyr gofal fod rhaid iddynt benderfynu i bob pwrpas sut i ddyrannu cyllid, ac a ddylid blaenoriaethu'r Cyflog Byw Gwirioneddol dros ofynion cyllid eraill. Dywedodd rhai comisiynwyr gofal fod y cyllid yn cael ei '*golli'* neu ei '*lyncu'* i bob pwrpas gan gostau cynyddol mewn mannau eraill.

> "Mae'r arian wedi'i golli yn y pot mawr; does dim arian ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol. Yn y blynyddoedd blaenorol, roedden ni wedi gallu cynnal y gwahaniaeth. Mae'n rhaid i ni wneud arbedion mewn mannau eraill i liniaru ein codiadau." (Comisiynydd gofal)

Tynnodd darparwyr sylw at y ffaith nad yw'r rhain yn benderfyniadau hawdd ac, yn aml, bod costau ariannol sefydlog y mae'n rhaid iddynt eu talu (e.e. y Cyflog Byw Cenedlaethol, biliau ynni a biliau eraill ac ati), sy'n golygu bod rhai wedi dewis peidio â thalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar adegau.

> "Cawsom ni gynnydd o 400+% mewn costau trydan ar yr un pryd." (Darparwr Gofal)

> "Rhaid i'n gwasanaeth brynu bwyd, felly mae'r argyfwng costau cyffredinol yn effeithio arnon ni." (Darparwr Gofal)

Wrth fynd ymlaen, er bod chwyddiant wedi gostwng o'i uchafbwynt, os bydd yn parhau i fod yn uwch na chyfradd y cynnydd mewn cyllid, cytunodd rhanddeiliaid ei bod yn debygol y bydd yn anoddach sicrhau bod Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei dalu i weithwyr gofal cymdeithasol heb drefn oruchwylio lymach i sicrhau bod y cyllid yn cyrraedd ble roedd i fod i gyrraedd.

> "Rydyn ni eisoes wedi cael nifer o awdurdodau lleol yn dweud wrth ddarparwyr nad oes ganddyn nhw'r cyllid i gynyddu ffioedd i'w galluogi i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer blwyddyn ariannol 24/25. Mae yna bwysau ar gyllid yr awdurdod lleol ond mae hyn hefyd yn dibynnu ar a yw hyn yn flaenoriaeth ddigonol iddyn nhw ai peidio." (Rhanddeiliad strategol cenedlaethol)

## 4.7 Mae darparwyr wedi cael trafferth cynnal gwahaniaethau cyflog rhwng gweithwyr rheng flaen a rheolwyr

Yn gysylltiedig â'r her o ran cyllid, dywedodd rhai darparwyr a chomisiynwyr gofal eu bod yn credu bod y cyllid ychwanegol ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol ond yn ddigon i fodloni'r gwahaniaeth mewn costau rhwng y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol, ond nid y costau eraill gan gynnwys gwahaniaethau rhwng gweithwyr gofal cymdeithasol a goruchwylwyr/rheolwyr.

Dywedodd llawer o ddarparwyr eu bod wedi ei chael hi'n anodd cynnal y gwahaniaethau hyn gyda'r cyllid a ddarperir gan awdurdodau lleol, gan awgrymu bod yr elfen hon o'r polisi wedi'i gweithredu'n llai effeithiol.

Mae'r cyllid ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol yn cynnwys cyfraniad tuag at y gost o gynnal gwahaniaethau cyflog rhwng gweithwyr gofal cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2024a), er nad yw'n bwriadu talu'r gwahaniaeth hwn yn ei gyfanrwydd, gyda disgwyl i ddarparwyr wneud cyfraniad hefyd.

> "Fe wnaethon ni ddarganfod ei bod hi'n anoddach cynnal gwahaniaethau gan fod rhaid i chi gynyddu cyflog staff sy'n uwch i fyny'r ysgol hefyd." (Darparwr gofal)

Nid oedd y gwerthusiad hwn yn cynnwys adolygiad o sut y cyfrifwyd y fformiwla gyllido na faint o'r cyllid y disgwyliwyd ei ddyrannu i dalu costau. Fodd bynnag, yng nghyd-destun y ffaith bod costau'n codi'n gyflymach na chyllid, mae adborth darparwyr yn awgrymu y bydd rhai yn cael trafferth talu unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â diogelu gwahaniaethau cyflog rhwng rolau.

## 4.8 Nid yw Llywodraeth Cymru'n pennu'r gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol nac yn rheoli amseru cyhoeddiadau

Nid yw Llywodraeth Cymru'n gosod y gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol, ac nid oes ganddi reolaeth dros amseru'r cyhoeddiad chwaith.

Mae hyn wedi bod yn her, gan nad yw'r amseru a'r cyfraddau a bennir yn ystyried cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru – ac, o ganlyniad i hynny, comisiynwyr gofal cymdeithasol – nac yn cyd-fynd â'r prosesau penderfynu blynyddol ar gyfer pennu cyfraddau ffioedd mewn gofal cymdeithasol. Mae hyn wedi effeithio ar amseru gweithredu'r polisi, gan wneud iddo ymddangos yn araf i weithwyr gofal cymdeithasol, yn ôl darparwyr.

Dywedodd darparwyr fod oedi rhwng yr amser pan gyhoeddir y Cyflog Byw Gwirioneddol bob blwyddyn (ym mis Hydref fel arfer) a phan fydd awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau ynghylch cyfraddau ffioedd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae awdurdodau lleol yn dechrau talu cyfraddau ffioedd newydd o ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd ym mis Ebrill, chwe mis ar ôl i'r gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol newydd gael ei gosod gan y Living Wage Foundation.

Fel arfer, nid yw awdurdodau lleol yn gwneud addasiad canol blwyddyn i fodloni'r Cyflog Byw Gwirioneddol newydd, felly mae'n rhaid i ddarparwyr unigol wneud penderfyniad ynghylch a allant fforddio codi cyflog, neu a fyddant yn aros am y setliad ariannol nesaf.

Mae'r oedi hwn yn arwain at oedi rhwng pan fydd staff yn dod yn ymwybodol o'r gyfradd newydd a phan maent fel arfer yn ei chael yn eu cyflog, a all achosi tensiwn gyda staff a allai fod yn disgwyl cael y cynnydd ar unwaith. Pan gyhoeddodd y Living Wage Foundation y gyfradd newydd ym mis Hydref, nododd y dylai cyflogwyr ei rhoi ar waith o fewn 6 mis.

Fodd bynnag, mewn cyferbyniad, gall cyflogwyr cyflog isel megis archfarchnadoedd weithredu'r gyfradd newydd yn syth ar ôl i'r Living Wage Foundation ei chyflwyno, gan

danseilio unrhyw fantais gystadleuol y mae'r polisi'n ceisio ei hennill yn y farchnad gyflogaeth.

> "Rydyn ni'n aros am gyhoeddiadau am gynnydd tan fis Mawrth, ac mae'r gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol yn aml yn hysbys tua mis Medi/Hydref ... Mae yna gyfnod lle mae'n rhaid i ni hysbysebu am staff newydd ond na allwn ni hysbysebu'r gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol newydd eto." (Darparwr gofal)

> "Mae staff yn ymwybodol iawn o'r cynnydd o fis Hydref... mae yna grwpiau WhatsApp ar gyfer staff gofal a llawer o sgwrsio am ba ddarparwyr sy'n talu eu staff yn gyflymach ac ar gyfraddau uwch." (Darparwr gofal)

Awgrymodd darparwyr a chomisiynwyr gofal fod hyn yn debygol o barhau i fod yn her cyn belled â bod setliadau ffioedd yn cael eu cynnal yn flynyddol ac nad oes unrhyw fecanweithiau wedi'u cynnwys ar gyfer adolygiadau yn ystod y flwyddyn.

## 4.9 Mae'r berthynas a'r trafodaethau rhwng comisiynwyr a darparwyr gofal, a derbynwyr taliadau uniongyrchol ac awdurdodau lleol, yn amrywiol

Cytunodd darparwyr a chomisiynwyr gofal y gall ansawdd perthnasoedd yn lleol fod naill ai'n rhwystr neu'n alluogwr.

Ar y cyfan, roedd parch a dealltwriaeth rhwng darparwyr a chomisiynwyr gofal. Roedd pob un ohonynt yn cydnabod bod yr her o ariannu a darparu gofal cymdeithasol yn sylweddol a bod angen gwneud penderfyniadau anodd ar adegau.

Mewn perthynas â'r Cyflog Byw Gwirioneddol, lle nododd rhanddeiliaid berthnasoedd gwaith da, gyda deialog reolaidd rhwng darparwyr a chomisiynwyr gofal, fel arfer roedd y polisi wedi'i weithredu'n fwy effeithiol.

Lle mae llai o ddeialog rhwng darparwyr a chomisiynwyr gofal, nodwyd bod mwy o densiynau a mwy o anhawster o ran gweithredu. Roedd llai o ddeialog yn aml yn nodwedd mewn ardaloedd lle roedd awdurdodau lleol yn llai abl i gynnig cynnydd mewn ffioedd.

Dywedodd rhai comisiynwyr gofal eu bod yn teimlo'n '*sownd yn y canol'*. Ar y naill law, mae darparwyr yn nodi nad ydynt yn cael cynnydd digonol mewn ffioedd i dalu am gost y Cyflog Byw Gwirioneddol ond, ar y llaw arall, mae Llywodraeth Cymru'n nodi bod y cyllid i dalu'r costau rhwng y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'i ddarparu.

> "Rydyn ni wedi cael rhywfaint o ddrwgdeimlad oherwydd cyhoeddiadau mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhyddhau sy'n dweud eu bod nhw wedi rhoi digon o gyllid i ni [awdurdodau lleol]. Mae darparwyr yn dod yn ôl aton ni gyda hyn. Mae hyn yn dangos y diffyg cydlyniant llwyr rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol." (Comisiynydd gofal)

Nododd rhai darparwyr fod eu hawdurdod lleol wedi ymgynghori â nhw i drafod ffioedd a swm y cynnydd sydd ei angen bob blwyddyn i gynnal taliad yr Cyflog Byw Gwirioneddol.

Nododd darparwyr eraill nad oeddynt yn ymgynghori neu’n sgwrsio fawr os o gwbl gyda'u hawdurdod lleol.

> “Mae [Hepgorwyd: enw'r awdurdod lleol] wedi bod yn dda iawn. Maen nhw'n sgwrsio gyda darparwyr am ofynion cyllido. Dydy hyn ddim yn digwydd yn [hepgorwyd: enw'r awdurdod lleol] – maen nhw jest yn dweud wrthych chi beth rydych chi'n ei gael.” (Darparwr gofal)

Yn ei dro, roedd rhai darparwyr yn teimlo bod diffyg eglurder ynghylch sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch cyfraddau ffioedd, a beth oedd y disgwyliadau arnynt ynghylch talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Cafodd y pryder hwn ei waethygu gan brofiad darparwyr bod gwahanol awdurdodau lleol yn cynnig cynnydd gwahanol mewn ffioedd. Dywedodd rhai darparwyr a oedd yn gweithio gyda sawl awdurdod lleol fod ffioedd ar gyfer rhai o'u cleientiaid yn ddigon uchel i dalu'r codiad cyflog, ond nid felly ffioedd eraill.

> “Mae hyn yn achosi rhywfaint o anhrefn o fewn y sector pan mae gennym ni gleifion wrth ymyl ei gilydd sy'n cael eu hariannu gan wahanol awdurdodau lleol - rhai [awdurdodau lleol] sydd wedi talu'r codiad a rhai sydd heb.” (Darparwr gofal)

> “Nid oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ddull cyson o ddyfarnu neu benderfynu beth ddylai ffioedd fod.” (Darparwr gofal)

### 4.9.1 Defnyddio rhwymedigaethau cytundebol

Dywedodd llawer o gomisiynwyr gofal awdurdodau lleol eu bod wedi cynnwys cymalau mewn contractau gofal cymdeithasol sy'n gorfodi talu'r gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf i staff. Soniodd sawl darparwr fod y rhwymedigaethau cytundebol hyn yn ei gwneud yn orfodol iddynt gydymffurfio â'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol.

> “Nid yw'n opsiwn i ni [beidio â'i dalu] gan ei fod yn ein contractau.” (Darparwr gofal)

> “Fe wnaethon ni fwydo'r Cyflog Byw Gwirioneddol i mewn i'r contractau ar gyfer darparwyr, felly os na chaiff ei basio ymlaen, gallwn ni adennill ein harian.” (Comisiynydd gofal)

Fodd bynnag, cydnabu rhanddeiliaid nad yw'r cymalau cytundebol hyn yn gyfreithiol orfodadwy os bydd darparwr yn dewis eu torri.

> “Nid yw'n hawdd casglu gwybodaeth am a yw'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei basio ymlaen ai peidio. Cawsom gyngor gwahanol ar ein gallu i orfodi'r Cyflog Byw Gwirioneddol – dywedodd ein hadran gyfreithiol fod rhaid iddo fod yn argymhelliad yn hytrach nag yn ofyniad. Dyma un o'r cyfyngiadau - canllaw yn hytrach na gorfodi - mae'n ei gwneud yn anodd i gomisiynwyr.” (Comisiynydd gofal)

Ar ben hynny, er y bydd comisiynwyr gofal yn dewis comisiynu darparwyr sy'n cytuno i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol lle bo hynny'n bosibl, mae rhai yn cydnabod nad yw hyn bob

amser yn bosibl pan nad oes dewis o ddarparwyr ar gael, megis mewn ardaloedd mwy gwledig.

> "Mae gennym ni gontract newydd ar gyfer gofal cartref, sy'n seiliedig ar ardal. Fel rhan o'r contract hwn, maen nhw wedi cofrestru i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Mewn gofal preswyl a nyrsio, dydy hynny ddim gennym ni yn y contract a does dim dewis i fynd i rywle arall chwaith." (Comisiynydd gofal)

Nid yw pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd yn rhoi hyn yn eu contractau, a dywedodd rhai darparwyr na fyddent yn ymrwymo i gontract sy'n cynnwys y cymal hwn.

> “Rydyn ni'n ei gwneud yn glir nad ydyn ni'n gwneud cytundeb cytundebol i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Ein busnes ni yw p'un a ydyn ni'n ei dalu ai peidio.” (Darparwr gofal)

**4.9.2 Derbynwyr taliadau uniongyrchol a gweinyddu'r Cyflog Byw Gwirioneddol**

Roedd derbynwyr taliadau uniongyrchol yn poeni am yr anghysondeb yn y ffordd mae awdurdodau lleol yn cymhwyso'r Cyflog Byw Gwirioneddol a'r baich gweinyddol ar y rhai sy'n rheoli taliadau uniongyrchol. Roedd y rhan fwyaf o bryderon yn canolbwyntio ar y beichiau ariannol ychwanegol a roddir ar dderbynwyr taliadau uniongyrchol i dalu'r cynnydd i'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Gall hyn fod yn arbennig o wir pan fo derbynwyr taliadau uniongyrchol yn clywed gan eu hawdurdod lleol na fyddent yn cynyddu'r cyllid. Gall hyn arwain at bryder y byddai angen i dderbynwyr taliadau uniongyrchol dalu'r costau eu hunain neu golli oriau o gymorth, ac o bosibl beidio â chadw eu cynorthwywyr personol os na allent gynyddu eu cyflogau.

> “A fydd y cyngor lleol yn talu am y cynnydd, neu a fyddwn ni'n colli oriau?" (Derbynnydd taliadau uniongyrchol)

> “Dywedodd [hepgorwyd: enw'r awdurdod lleol] wrtha i mai canllaw yn unig yw'r ddeddfwriaeth ac nad ydyn nhw wedi ymrwymo i ddarparu'r cyflog byw. Dywedon nhw fod y cyllidebau'n dynn ac efallai y byddan nhw'n cynyddu'r cyflog eleni, ond does dim byd wedi'i gadarnhau. Dim ond £11.65 maen nhw'n ei dalu ar hyn o bryd ac fe wnaethon nhw esbonio mai dim ond isafswm cyflog sy’n gyfraith, ac nad oedd Deddfwriaeth Cymru yn gyfraith.” (Derbynnydd taliadau uniongyrchol)

Yn ogystal, disgrifiwyd tensiwn hefyd rhwng derbynwyr taliadau uniongyrchol ac awdurdodau lleol ynghylch talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i gynorthwywyr personol, a phwy oedd â rheolaeth dros hyn. Dywedodd derbynnydd taliadau uniongyrchol a ymatebodd i'r arolwg:

> “Does gen i ddim rheolaeth dros faint mae'r cynorthwyydd personol yn cael ei dalu a dydw i ddim yn ymdrin â'r arian o gwbl. Y cyfan rwy'n ei wneud yw ymateb i e-bost a anfonir ata i bob 4 wythnos gan yr adran taliadau uniongyrchol yn y cyngor gyda'r oriau a weithiwyd yn y cyfnod 4 wythnos hwnnw gan y cynorthwyydd personol, yna maen nhw'n ei thalu'n uniongyrchol. Doeddwn i ddim

> hyd yn oed wedi sylweddoli ei bod hi'n cael ei thalu cyn lleied.” (Derbynnydd taliadau uniongyrchol)

## 4.10 Nid oedd gan y broses o oruchwylio'r dull gweithredu polisi ddata manwl

Ar hyn o bryd, mae rhai bylchau yn y data sydd ar gael y gellid eu defnyddio i asesu dull gweithredu'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol, ar gyfer monitro sut mae cyllid yn cael ei ddefnyddio i gynyddu cyflogau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ac ar gyfer a yw lefel y cyllid yn ddigonol.

Fel y trafodwyd yn gynharach yn y bennod hon, mae'n ddadleuol a oes digon o gyllid ar gael i gwmpasu nodau'r polisi hwn, a hefyd ansicrwydd ynghylch a yw cyllid yn cael ei ddefnyddio i dalu am y Cyflog Byw Gwirioneddol neu gostau eraill.

> “Mae cyflogwyr yn dweud wrthym ni nad ydyn nhw'n cael digon o gynnydd mewn ffioedd gan awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a gwahaniaethau i dalu'r rhai sydd â chyfrifoldeb uwch. Maen nhw'n cwyno nad yw'r mecanwaith yn gweithio - ond o'n safbwynt ni, mae'n anodd gwybod.” (Rhanddeiliad strategol cenedlaethol)

Oherwydd diffyg data, a chyda'r pwysau arall sy'n wynebu darparwyr, mae ansicrwydd hefyd ynghylch faint o ddarparwyr sydd wedi codi eu cyfraddau i dalu'r gwahaniaeth rhwng y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w staff, ac i'w gweithwyr gofal cymdeithasol yn arbennig. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn gofyn am yr wybodaeth hon, gan eu bod yn dibynnu ar ddarparwyr yn rhannu'r wybodaeth hon â nhw.

> “Mae diffyg setiau data ar gael ar beth sy'n digwydd o ran talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a sut mae'n symud drwy'r system ar bob lefel - does gennym ni ddim darlun tryloyw.” (Rhanddeiliad strategol cenedlaethol)

Dywedodd rhanddeiliaid hefyd ei bod yn anodd gwybod a yw lefel gyffredinol y cyllid ar gyfer y polisi yn ddigon, neu a oedd yn ddigon ar gyfer blynyddoedd blaenorol, oherwydd y diffyg data manwl ar hyn.

> “Dydw i ddim yn anghytuno â swm y cyllid, ond mae'n anodd gwybod gan nad oes tystiolaeth bendant i ddweud a oedd yn ddigon... Ond mae angen tystiolaeth arnon ni o'r bwlch rhwng cyllid a'r hyn y mae'n ei gostio mewn gwirionedd i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.” (Rhanddeiliad strategol cenedlaethol)

Gall hyn fod yn rhannol oherwydd, fel y disgrifiodd rhanddeiliad strategol cenedlaethol, "does dim data ar y gweithlu na dealltwriaeth o faint y gweithlu lle mae'r polisi'n berthnasol." Mae hyn yn ei gwneud yn anodd cyfrifo a rhagweld costau cyllido'r polisi yn gywir ar gyfer pob blwyddyn ariannol sydd i ddod.

# 5. Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o ganlyniadau a chanlyniadau annisgwyl

## 5.1 Trosolwg

Mae'r bennod hon yn amlinellu canlyniadau cynnar a chanlyniadau anfwriadol y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol, gan gynnwys graddfa bresennol a disgwyliedig ei effeithiau. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar gyfweliadau â rhanddeiliaid strategol cenedlaethol a gweithdai gyda darparwyr gofal a chomisiynwyr gofal o bob cwr o Gymru. Ni ymgynghorwyd â gweithwyr gofal cymdeithasol yn uniongyrchol fel rhan o'r gwerthusiad o'r broses, ond ymgysylltir â nhw ar gyfer y gwerthusiad o effaith.

Mae rhywfaint o dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg gan gyflogwyr yn awgrymu **effaith gadarnhaol ar weithwyr gofal cymdeithasol**, gan gynnwys ar gyflog, boddhad a morâl uwch, fel y bwriadwyd. Bydd hyn yn cael ei archwilio ymhellach o fewn y gwerthusiad o effaith.

Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid yn fwy **gofalus ynghylch maint yr effaith ar y sector gofal ehangach** o ran recriwtio neu gadw'r staff gorau, er gwaethaf llond llaw o enghreifftiau cadarnhaol o gynnydd posibl yn y meysydd hyn.

Fel rhan o gam nesaf y gwerthusiad hwn, cynhelir gwerthusiad o effaith i edrych ar effaith talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd hyn yn archwilio'n fanylach effeithiau a chanlyniadau anfwriadol y polisi, gan gynnwys ymgynghori â gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig a chynorthwywyr personol nas ymgysylltwyd â nhw eto fel rhan o'r gwerthusiad hwn.

Dylid ystyried y canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn fel rhai dros dro a dylid eu trin yn fwy gofalus. Mae manylion y cynlluniau ar gyfer y gwerthusiad o effaith, sy'n cynnwys ymgynghori â gweithwyr gofal cymdeithasol, wedi'u cynnwys yn Atodiad B.

## 5.2 Canlyniadau i weithwyr gofal cymdeithasol

Mae'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol wedi cael rhai canlyniadau cynnar i weithwyr gofal cymdeithasol ar gyflog, tlodi mewn gwaith a morâl.

### 5.2.1 Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn derbyn cyfraddau cyflog uwch

Yn seiliedig ar yr adolygiad o rolau gofal cymdeithasol a hysbysebwyd ac adborth darparwyr a chomisiynwyr gofal, gellir dod i'r casgliad, ers gweithredu'r polisi i dalu Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol, fod mwy o ddarparwyr gofal wedi dechrau talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys darparwyr a adroddodd yn benodol eu bod wedi dechrau talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w gweithwyr gofal cymdeithasol oherwydd bod y polisi yn cael ei gyflwyno.  Fodd bynnag, fel y dywedwyd uchod, nid yw'n glir faint o ddarparwyr sy'n gwneud hyn ac i ba raddau.

### 5.2.2 Atal tlodi mewn gwaith a lliniaru costau byw

Dywedodd rhanddeiliaid fod y polisi wedi arwain at welliant mewn safonau byw ar gyfer rhai o'u staff, gydag un darparwr yn nodi gostyngiad yn nifer y staff sy'n profi tlodi mewn gwaith.

> "Rydyn ni wedi gweld gostyngiad yn nifer y staff sy'n profi tlodi mewn gwaith. Nid yw'n ymddangos bod y pwysau mor ddwys ar ein staff sydd ar y cyflog isaf." (Darparwr gofal)

Dywedodd comisiynwyr a darparwyr gofal fod gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi rhoi rhywfaint o amddiffyniad i staff gofal rhag effeithiau'r argyfwng costau byw dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Efallai bod y Cyflog Byw Gwirioneddol wedi gweithredu fel mesur ataliol, a hebddo efallai y byddai staff wedi teimlo effeithiau'r argyfwng costau byw yn fwy acíwt, gan arwain at drosiant staff uwch yn y sector.

> "Beth fyddai'r effaith pe na baen nhw wedi cael y Cyflog Byw Gwirioneddol? Oherwydd yr argyfwng costau byw, bydden ni wedi gweld llawer mwy o bobl yn gadael yn ôl pob tebyg. Mae'n fwy o beth ataliol na gwelliant." (Comisiynydd gofal)

Awgrymodd rhai rhanddeiliaid ei bod yn debygol nad oedd staff wedi nodi gwahaniaeth yn eu safonau byw, gan fod costau byw a'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi codi ar yr un pryd.

Nid oedd yn glir o grwpiau ffocws a oedd rhanddeiliaid yn credu bod y Cyflog Byw Gwirioneddol wedi gwella safonau byw i weithwyr gofal cymdeithasol yr oedd eu cyflogau wedi codi o'r Cyflog Byw Cenedlaethol i'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a ddylai fod wedi arwain at gynnydd uwchlaw chwyddiant i'w cyflogau. Ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a gafodd y Cyflog Byw Gwirioneddol ar draws 2023 a 2024, byddai eu cyflogau wedi olrhain chwyddiant yn fras. O ganlyniad, ni fyddai disgwyl i'w sefyllfa ariannol wella, er y dylai'r Cyflog Byw Gwirioneddol fod wedi helpu i liniaru erydiad eu hincwm.

Mae'r cyfrifiadau ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol yn ystyried newidiadau i chwyddiant, felly, wrth i brisiau godi, dylai'r Cyflog Byw Gwirioneddol liniaru hyn ac atal unrhyw un rhag disgyn o dan bwynt penodol (Living Wage Foundation, 2023). Mae yna hefyd gyfnod o chwe mis rhwng pryd y cyhoeddir y gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol yn yr Hydref a phryd y bydd yn cael ei rhoi ar waith ym mis Ebrill y flwyddyn ganlynol. Mae hyn yn golygu, ym mhob blwyddyn ariannol, y bydd y gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol wedi cael ei chyhoeddi fwy na 6 mis cyn ei rhoi ar waith, sy'n esbonio'r canfyddiad nad yw'r gyfradd yn ddigon uchel ar gyfer yr amgylchiadau presennol.

> "Y gwir amdani yw y bydd unrhyw arian ychwanegol ym mhocedi pobl yn cael ei lyncu gan gostau byw." (Comisiynydd gofal)

### 5.2.3 Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn fwy bodlon ac mae eu morâl wedi gwella

Un o ganlyniadau bwriedig allweddol y polisi, fel y nodir yn y Theori Newid, yw sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a bod eu gwaith

yn cael ei gydnabod. Dywedodd rhai darparwyr y gallai talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol fod wedi cael effaith gadarnhaol ar foddhad staff yn y gwaith, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fwy ac yn cael mwy o gydnabyddiaeth am eu gwaith.

> "Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fwy. Rydyn ni'n dal i feddwl y dylen nhw gael eu talu mwy, ond o leiaf mae wedi cau'r bwlch gyda gofal iechyd." (Darparwr gofal)

Fodd bynnag, roedd rhai darparwyr yn teimlo bod yr oedi wrth gyflwyno'r cynnydd ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol o'r adeg y caiff ei gyhoeddi hyd at yr adeg pan gaiff ei dalu yn cyfleu neges o amharodrwydd i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Er bod hyn yn unol â'r gofynion o ddarparu Cyflog Byw Gwirioneddol, nodwyd bod llawer o gwmnïau preifat yn dewis gweithredu'n gyflymach. Tynnodd darparwyr sylw at y ffaith y gellid gwella hyn pe bai comisiynwyr gofal yn gallu ariannu cynnydd gyfraddau ffioedd yn ystod y flwyddyn.

## 5.3 Canlyniadau ar gyfer y system ofal ehangach

Mae'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol hefyd wedi cael rhai canlyniadau cynnar ar y system gofal cymdeithasol ehangach, yn enwedig ar gyfer recriwtio a chadw staff gofal ac ar gyfer codiadau cyflog i staff nad ydynt yn staff gofal.

Yn wahanol i weithwyr gofal cymdeithasol, lle nodwyd canlyniadau cadarnhaol, cyflwynodd rhanddeiliaid dystiolaeth fwy cymysg o effaith ar y sector gofal ehangach. Tynnodd darparwyr sylw at arwyddion bod sefydlogrwydd ariannol cyffredinol eu sefydliadau wedi'i herio. Fodd bynnag, roeddent yn ofalus ynghylch priodoli canlyniadau negyddol i'r polisi hwn, gan dynnu sylw at gyd-destun ehangach o heriau.

### 5.3.1 Recriwtio a chadw staff

Roedd darparwyr a chomisiynwyr gofal o'r farn ei bod yn rhy gynnar i fesur effaith y polisi ar gyfraddau recriwtio a chadw. Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod gormod o ffactorau cystadleuol sy'n effeithio ar gyfraddau recriwtio a chadw mewn gofal cymdeithasol, megis proffesiynoleiddio'r sector a'r amodau gwaith, sy'n ei gwneud yn anodd iawn nodi effaith y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol yn unig.

Fodd bynnag, nododd comisiynwyr gofal, darparwyr a derbynwyr taliadau uniongyrchol rai canlyniadau cadarnhaol bach ar gyfraddau recriwtio a chadw.

> "Rydyn ni wedi bod yn ffodus i gadw'r un cynorthwywyr personol yn eu lle cyn ac ar ôl y newidiadau cyflog. Rydyn ni'n credu bod y cynnydd i'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi eu galluogi i barhau i weithio fel cynorthwywyr personol yn hytrach na cheisio cael gwaith arall â chyflog gwell." (Derbynnydd taliadau uniongyrchol)

> "Mae'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol wedi gwella materion recriwtio a chadw yn [golygwyd: enw'r awdurdod lleol]." (Comisiynydd gofal)

### 5.3.2 Sefydlogrwydd ariannol gwasanaethau

Dywedodd rhai darparwyr sydd wedi cael trafferth ariannol wrth gyflwyno'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol, ynghyd â phwysau diweddar arall, eu bod wedi gorfod cau rhai gwasanaethau i leihau eu costau.

Dywedodd sawl darparwr eu bod wedi lleihau'r ystod o wasanaethau yr oeddent yn eu cynnig ers cyflwyno'r polisi, a dywedodd rhai eu bod yn gwybod am sefydliadau eraill a oedd wedi cau yn llwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, am wahanol resymau ariannol gan gynnwys goblygiadau cost y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol. O'r darparwyr a ddywedodd eu bod wedi rhoi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau o fewn yr ystod o wasanaethau yr oeddent wedi'u darparu, dywedodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod wedi torri eu darpariaeth gwasanaethau gofal dydd yn gyntaf.

> "Rydyn ni wedi gadael y farchnad gwasanaethau gofal dydd." (Darparwr gofal)

Cytunodd y darparwyr hyn nad oedd cyllid cyffredinol gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ddigonol, a'i fod yn cynnwys yr adnodd sydd ei angen i dalu Cyflog Byw Gwirioneddol, yn ogystal â'r costau eraill sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth.

### 5.3.3 Cyrhaeddiad y polisi i staff nad ydynt yn staff gofal

Dywedodd sawl darparwr eu bod bellach yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i ystod ehangach o staff, o ganlyniad i'r polisi. Er nad oedd hyn yn un o ganlyniadau disgwyliedig neu fwriedig y polisi, roedd llawer yn gweld hyn fel canlyniad cadarnhaol, gan awgrymu bod cyrhaeddiad y polisi yn ehangach nag a gynlluniwyd.

## 5.4 Canlyniadau annisgwyl y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol

O ganlyniad i'r polisi, disgrifiwyd nifer o ganlyniadau annisgwyl i weithwyr gofal cymdeithasol.

### 5.4.1 Staff yn lleihau eu horiau neu'n gadael rolau

Mae cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi effeithio ar hawliau staff gofal i gael budd-daliadau. Mynegodd sawl darparwr bryderon eu staff ynglŷn â hawliau i gael budd-daliadau o ystyried eu cyflog uwch, newydd. Canlyniad hyn yw bod rhai staff sy'n hawlio Credyd Cynhwysol a budd-daliadau eraill wedi ceisio lleihau eu horiau neu adael eu rolau yn gyfan gwbl, er mwyn cadw eu hawl.

Gall hyn fod oherwydd ei bod fel arfer yn cymryd o leiaf bum wythnos i gael y taliad Credyd Cynhwysol cyntaf ar ôl gwneud hawliad (Shelter Cymru, 2024). O ganlyniad i'r ffaith bod y broses hawlio'n hir ac o bosibl yn gymhleth, mae rhai staff sy'n hawlio yn ofni colli'r taliad atodol wrth i'w cyflogau godi i'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

> "Fe gollon ni lawer o staff pan ddywedon ni ein bod ni'n mynd i weithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, gan fod y staff yn dweud, 'Rydw i nawr yn mynd i gael fy

> nhalu gormod a bydd yn effeithio ar fy mudd-daliadau i'... gofynnodd staff am leihau eu horiau.” (Darparwr gofal)

> “Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi cael effaith ryfedd. Mae aelodau'r tîm yn haeddu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ond mae gennym ni hefyd bobl ar Gredyd Cynhwysol sy'n gweithio llai o oriau, felly weithiau dydyn nhw ddim eisiau mwy o gyflog gan y bydd yn effeithio ar eu Credyd Cynhwysol... roedd arfer bod gennym ni 35/36 aelod o'r tîm, ond erbyn hyn mae gennym ni 40 aelod o'r tîm gan fod pobl yn gweithio llai o oriau.” (Darparwr gofal)

Cyfrifwyd effaith codiad cyflog o'r Cyflog Byw Cenedlaethol i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar daliad Credyd Cynhwysol ar gyfer oedolyn 25 oed neu hŷn sy'n cael Credyd Cynhwysol. Mae'r cyfrifiadau'n cymryd yn ganiataol nad yw'r person yn cael unrhyw fudd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill megis Budd-dal Tai. Mae'r cyfrifiadau'n dangos bod y codiad cyflog yn sylweddol ar gyfer gweithwyr llawn amser (£255.55 o gyflog gros). Fodd bynnag, oherwydd y gyfradd tapr Credyd Cynhwysol, ar gyfer rôl ran-amser 20 awr, mae'r gwahaniaeth yn sgil symud i'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn llai, sef cynnydd o £60.38 mewn cyflog gros y mis. Gweler Atodiad C am y cyfrifiad llawn.

### 5.4.2 Datgymell camu ymlaen mewn gyrfa

Mae llawer o ddarparwyr wedi nodi eu bod yn cael trafferth cynnal gwahaniaethau cyflog rhwng rolau gofal ar wahanol lefelau ac ar wahanol lefelau cyfrifoldeb, a dywedodd rhai bod staff bellach yn llai tebygol o fod eisiau cael dyrchafiad neu gael hyfforddiant i fynd ymlaen i rolau uwch o ganlyniad. Mae'r her hon hefyd wedi arwain at rai darparwyr yn gwastatáu strwythurau cyflog.

> “Nid yw gwahaniaethau rhwng gweithwyr a rheolwyr wedi'u cynnal ar draws pob darparwr. Mae hyn yn gwneud i weithwyr feddwl, 'beth yw'r pwynt ysgwyddo cyfrifoldeb ychwanegol am fawr ddim cyflog ychwanegol’.” (Comisiynydd gofal)

> “Rydyn ni wedi cymhwyso'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar draws y sefydliad cyfan... sy'n golygu ein bod ni wedi dileu'r bandiau gan nad oedden ni'n gallu cynnal gwahaniaethau.” (Darparwr gofal)

### 5.4.3 Mae disgwyliadau cyflog wedi codi

Mae staff gofal cymdeithasol yng Nghymru sydd wedi bod yn cael y gyfradd gyflog Cyflog Byw Gwirioneddol bellach yn disgwyl i'w cyflog godi bob blwyddyn yn unol â chyfradd y Living Wage Foundation, nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth drosti.

Pan fo darparwyr wedi cynyddu eu cyflogau i'r Cyflog Byw Gwirioneddol un flwyddyn, ac yna heb wneud hynny y flwyddyn ddilynol, mae staff yn teimlo'n siomedig gyda'u cyflogwr.

> “Yn seiliedig ar y ffaith ein bod wedi ei dalu yn 2022 ond nad ydyn ni wedi gallu ei dalu eleni, mae staff bellach yn teimlo fel bod rhywbeth wedi'i gymryd oddi wrthyn nhw.” (Darparwr gofal)

Nodwyd hefyd bod disgwyliadau cyflog yn cael eu codi ymhlith grwpiau staff eraill mewn cartrefi gofal nad ydynt yn gymwys i gael y Cyflog Byw Gwirioneddol, ac y gall hyn arwain at densiwn rhwng grwpiau staffio.

> “Un peth sy'n peri pryder i mi yw'r ffaith nad yw rhai pobl sy'n gweithio mewn cartrefi nyrsio preswyl wedi elwa. Cogyddion, cynorthwywyr cegin, staff domestig, staff golchdy ac ati. Ni allai gofalwyr wneud yr hyn maen nhw'n ei wneud heb y staff hynny. Mae wedi achosi llawer iawn o ddrwgdeimlad mewn cartrefi gofal. Collodd un cartref gofal yn [hepgorwyd: enw'r awdurdod lleol] dri aelod o staff oherwydd hyn.” (Comisiynydd gofal)

Mae'r ddeinameg hon yn tynnu sylw at risg i Lywodraeth Cymru a'r sector gofal cymdeithasol. Er enghraifft, pe bai cyfnod estynedig arall o chwyddiant uchel a chynnydd cyflym yn y Cyflog Byw Gwirioneddol, mae'r polisi hwn wedi creu disgwyliad y bydd cyflogau'n olrhain y cynnydd hwnnw, gyda risgiau posibl os na fyddant yn gwneud hynny.

Fodd bynnag, nid yw cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol yn gysylltiedig â chwyddiant. O ganlyniad, mae potensial ar gyfer anghysondeb rhwng y cyllid sydd ar gael a chost ymrwymiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol, nad oes gan lunwyr polisi reolaeth lawn drosto.

## 5.5 Canlyniadau annisgwyl y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol i'r system ofal ehangach

Bu canlyniadau annisgwyl hefyd i'r system ofal ehangach, gan gynnwys newidiadau i'r ffordd mae darparwyr bach yn cael eu rhedeg, a symiau atodol gan deuluoedd defnyddwyr gwasanaethau.

### 5.5.1 Darparwyr bach yn newid sut y maent yn darparu gofal

Dywedodd darparwyr bach a theuluol eu bod wedi newid y ffordd y maent yn darparu gofal, er mwyn gwneud y broses o weithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn ymarferol i'w staff a busnesau bach. Dywedodd perchnogion busnesau o'r math hwn eu bod wedi bod yn fwy tebygol o ymgymryd â mwy o dasgau gofal o ddydd i ddydd eu hunain, megis cyflenwi dros wyliau blynyddol ac absenoldeb salwch eu staff, yn hytrach na recriwtio i fwy o swyddi neu dalu goramser i'w staff. Gallai hyn arwain at leihau'r rolau sydd ar gael o fewn darparwyr gofal teuluol a darparwyr bach eraill.

> “Mae'n fater o jyglo. Rwy'n gwneud mwy o waith ymarferol, o ran apwyntiadau a phethau y byddai staff yn eu gwneud fel arfer. Rwy'n gwneud mwy o'r tasgau y byddwn i wedi talu staff i'w gwneud o'r blaen. Gan ei fod yn fusnes teuluol, mae fy nheulu hefyd yn gwneud mwy.” (Darparwr gofal)

### 5.5.2 Symiau atodol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd

Mae rhai cartrefi gofal hefyd wedi gweithredu symiau atodol a delir gan deuluoedd, i ategu cyflog staff gofal ymhlith costau cynyddol eraill, gan nad yw cyllid awdurdodau lleol yn cwmpasu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn llawn.

> “Rydyn ni'n codi symiau atodol hefyd. Y flwyddyn ariannol diwethaf, fe wnaethon ni geisio mynd â'n holl staff uwchlaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Eleni, dydyn ni ddim yn gallu talu'r gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol i'r staff domestig.” (Darparwr gofal)

Yn yr un modd, nododd rhai derbynwyr taliadau uniongyrchol hefyd eu bod wedi gorfod ychwanegu at gyflog eu cynorthwyydd personol uwchlaw'r swm y maent yn ei gael drwy eu taliadau uniongyrchol, er mwyn sicrhau nad yw'r person yn gadael ei rôl.

> “Mae'r awdurdod lleol ond yn talu £11.65 yr awr mewn taliadau uniongyrchol, ond rydyn ni'n 'ychwanegu' at y swm hwn allan o'n cronfeydd ein hunain fel bod y gyfradd yn codi i £12.10. Pe na baem yn gwneud hynny, rwy'n credu y byddai'n anoddach recriwtio, ac maen nhw'n ei haeddu hefyd.” (Derbynnydd taliadau uniongyrchol)

Bydd y canlyniadau anfwriadol hyn yn cael eu harchwilio ymhellach yn y cam gwerthuso effaith.

## 5.6 Faint o wahaniaeth mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'i wneud?

Ar y cam interim hwn, roedd rhanddeiliaid yn awyddus i fynegi eu bod yn teimlo'n gadarnhaol am gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol, er gwaethaf rhai heriau wrth weithredu. Fel y trafodwyd yn gynharach yn y bennod hon, mae'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu ei fod wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i weithwyr gofal cymdeithasol mewn nifer o feysydd.

Fodd bynnag, mynegodd rhanddeiliaid eu bod yn ansicr ynghylch a fyddai'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol o reidrwydd yn cyflawni ei nodau arfaethedig heb ddiwygiadau eraill, yn enwedig o ystyried nifer o heriau cyd-destunol.

### 5.6.1 Dim ond un rhan o'r pos yw cyflog

Er mai cyflog oedd y rheswm mwyaf cyffredin y byddai gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru yn gadael eu rolau yn y flwyddyn ganlynol yng nghanlyniadau'r arolwg gweithlu Gofal Cymdeithasol diweddaraf (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2023), roedd rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw yn y gwerthusiad hwn yn nodi'n gyson mai dim ond un rhan o'r pos yw cyflog wrth fynd i'r afael â'r problemau recriwtio a chadw sy'n bodoli yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Nododd y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw yn y gwerthusiad hwn fod telerau ac amodau, dulliau arwain a rheoli a gofynion hyfforddi a chymhwyso i gyd o bosibl yn cael mwy o effaith ar ffigurau recriwtio a chadw na chyfraddau cyflog.

> “Dim cyflog yw popeth. Er ei bod yn dda bod y bar wedi'i godi, gallwn ni weld nad dyma'r unig ffactor pam mae pobl yn cael gwaith ac yn aros mewn gwaith. Mae cymaint o bethau eraill sy'n effeithio ar weithwyr gofal. Mae angen gwell telerau ac amodau ar gyfer staff.” (Comisiynydd gofal)

### 5.6.2 Efallai na fydd y gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol yn ddigon uchel i gael effaith sylweddol

Cyflog Byw Gwirioneddol y DU, fel y'i pennir gan y Living Wage Foundation, yw £12.00 (ym mis Gorffennaf 2024) - cynnydd o 66 ceiniog yr awr ar y Cyflog Byw Cenedlaethol. Roedd gan randdeiliaid bryderon nad yw'r cynnydd i'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn ddigon sylweddol i gael unrhyw effaith ar recriwtio a chadw, yn enwedig pan gaiff ei gyfuno â ffactorau eraill, mwy dylanwadol fel yr amlinellir uchod.

> "Mae pobl yn credu y dylai fod wedi bod yn fwy na'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Alla i ddim cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a dydy e ddim yn ddigon uchel beth bynnag." (Darparwr gofal)

> "Er bod cyflogau'n uwch, dydyn nhw dal ddim yn ddigon uchel ar gyfer y gwaith caled a'r oriau anghymdeithasol y mae'n rhaid i ofalwyr eu gwneud. Mae'r swydd yn rhoi cyfyngiadau mawr ar fywydau gofalwyr a dydy'r arian ddim yn annog pobl i fod eisiau gweithio mewn gofal cymdeithasol." (Derbynnydd taliadau uniongyrchol)

### 5.6.3 Cystadleuaeth â sectorau eraill

Mae'r sector gofal cymdeithasol yn cystadlu â sectorau cyflog isel eraill, megis manwerthu a lletygarwch. Mae darparwyr yn nodi eu bod yn ceisio cadw eu cyflogau'n gystadleuol i gymell staff i beidio â gadael, ond ei bod yn anodd cadw i fyny â'r gystadleuaeth pan all manwerthwyr a lleoliadau lletygarwch fforddio talu cyflogau uwch.

Er enghraifft, o'r naw cadwyn archfarchnad fwyaf yn y Deyrnas Unedig, mae saith yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf ar hyn o bryd, ym mis Ebrill 2024 (Grocery Gazette, 2024). Ar ben hynny, mae llawer o'r cadwyni archfarchnadoedd mawr hyn hefyd yn cyhoeddi codiadau cyflog ar unwaith i'r gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol newydd, neu'n uwch, yn fuan ar ôl i'r gyfradd newydd gael ei chyhoeddi bob mis Hydref, chwe mis cyn gofal cymdeithasol (Grocery Gazette, 2024).

Yn ogystal, mae'r sector gofal cymdeithasol yn aml yn cystadlu â'r sector gofal iechyd, lle mae rolau tebyg i weithwyr gofal yn aml yn cael cyflogau uwch, a gallant ddod gyda thelerau ac amodau gwell. Er enghraifft, mae Cynorthwywyr Gofal Iechyd newydd yn aml yn cael £1 yn fwy yr awr o gymharu â'r gweithiwr gofal cyffredin (Sgiliau ar gyfer Gofal, 2023). Yn ogystal, ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, mae gweithwyr y GIG ar y band isaf, band 2, yn cael o leiaf £12.08 yr awr (Cyflogwyr y GIG, 2024).

> "Nid yw hyd yn oed y 'Cyflog Byw Gwirioneddol' yn ddigon i annog ymgeiswyr pan allan nhw gael hyd at £15 yr awr yn stacio silffoedd mewn archfarchnadoedd." (Derbynnydd taliadau uniongyrchol)

> "Allwn ni ddim cystadlu â chyfraddau cyflog iechyd." (Darparwr Gofal)

# 6. Casgliadau ac argymhellion

## 6.1 Trosolwg

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb a thrafodaeth o ganfyddiadau allweddol yr adroddiad hwn o’r gwerthusiad o'r broses ac yn cyflwyno rhai argymhellion a awgrymir ar gyfer parhau i reoli a gweithredu ymrwymiad y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol gan Lywodraeth Cymru.

## 6.2 Casgliadau a chanfyddiadau allweddol

Wrth ddod â'r adroddiad hwn i ben, mae pedwar canfyddiad allweddol yn dod i'r amlwg o'r adroddiad o’r gwerthusiad o'r broses o weithredu'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, gan gyfeirio'n enwedig at y gweithredu rhwng Ebrill 2022 a Mehefin 2024.

### 6.2.1 Mae'r polisi wedi'i weithredu'n bennaf fel y cynlluniwyd gan Lywodraeth Cymru, comisiynwyr gofal a darparwyr

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y polisi wedi'i weithredu'n fras fel y cynlluniwyd gan Lywodraeth Cymru, comisiynwyr gofal a darparwyr gwasanaethau gofal. Mae'r cyflwyniad wedi cyd-fynd â Theori Newid y polisi (gweler Atodiad A), ac eithrio lle mae tystiolaeth i awgrymu bod darparwyr wedi defnyddio cyllid yn wahanol i'r ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei ddefnyddio (h.y. lle nad ydynt yn talu Cyflog Byw Gwirioneddol).

### 6.2.2 Mae'n debygol bod y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol wedi cyrraedd y rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol cymwys

Mae cydbwysedd y dystiolaeth yn dangos ei bod yn debygol bod y Cyflog Byw Gwirioneddol wedi cyrraedd y rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal bwriedig. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod lleiafrif o weithwyr gofal cymdeithasol a chynorthwywyr personol yn parhau i gael eu talu islaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Felly, daeth i'r casgliad bod y Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'i gyflwyno i raddau helaeth, ond nid ar draws pob sefydliad. O ystyried yr amgylchedd economaidd a chyllido heriol, roedd rhanddeiliaid yn cydnabod bod hwn yn gyflawniad pwysig.

Nid yw'n glir faint o weithwyr gofal cymdeithasol a oedd yn cael y Cyflog Byw Gwirioneddol cyn cyflwyno'r polisi, ac mae dull gweithredu'r polisi a chanlyniadau i weithwyr mewn gwasanaethau a ariennir yn breifat yn dal i fod yn ansicr. Mae mecanweithiau talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a'r broses o gasglu data wedi canolbwyntio'n bennaf ar ofal a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd neu a ddarparwyd drwy gynorthwywyr personol a ariennir gan daliadau uniongyrchol awdurdodau lleol. Mae'r ffocws hwn yn eithrio gofal a ariennir yn breifat, gan ei gwneud yn aneglur a yw gweithwyr gofal cymdeithasol a gyflogir gan ddarparwyr a ariennir yn breifat yn cael y Cyflog Byw Gwirioneddol neu sut mae hyn wedi'i ariannu.

### 6.2.3 Y rhwystr mwyaf i'r polisi yw'r cyd-destun economaidd a chyllido, ond mae hyn wedi cael ei waethygu yn sgil peidio â neilltuo cyllid ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol

Y rhwystr mwyaf mae darparwyr a chomisiynwyr gofal yn ei nodi yw bod y polisi'n cael ei roi ar waith yn ystod cyfnod pan fo costau cyllido gofal yn codi'n gyflymach na'r cyllid sydd ar gael.

Er bod llunwyr polisi yr ymgynghorwyd â nhw yn y cyfweliadau â rhanddeiliaid cenedlaethol wedi mynegi hyder bod Llywodraeth Cymru wedi darparu digon o gyllid ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol, mae comisiynwyr a darparwyr gofal yn nodi nad yw'r cyllid yn ddigon. Gall yr anghysondeb hwn godi oherwydd bod llunwyr polisi yn gweld y cyllid ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol fel endid ar wahân, tra bod comisiynwyr a darparwyr gofal yn ei weld fel rhan o gyllideb fwy, heb ei neilltuo. Felly, o ystyried y cyd-destun presennol o gostau gofal cynyddol, gall darparwyr a chomisiynwyr gofal ystyried bod y cyllid ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol yn annigonol.

Gan nad yw'r cyllid Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'i neilltuo o fewn cyllidebau llywodraeth leol, yng nghyd-destun pwysau cyllido, mae risg y bydd cyllid a fwriedir ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei ddefnyddio i dalu costau eraill.

### 6.2.4 Cafodd y polisi ganlyniadau cadarnhaol cynnar ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, ond cafwyd canlyniadau annisgwyl a negyddol hefyd

Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg bod y polisi wedi cael effeithiau cadarnhaol cynnar ar weithwyr gofal cymdeithasol, gan sicrhau bod llawer o weithwyr yn derbyn codiad cyflog yn ystod argyfwng costau byw a gwella boddhad a morâl fel y bwriadwyd.

I'r gwrthwyneb, gallai'r polisi fod wedi cael rhai effeithiau negyddol ar weithwyr gofal cymdeithasol, darparwyr a'r sector gofal cymdeithasol ehangach, megis staff yn lleihau eu horiau, teuluoedd a derbynwyr taliadau uniongyrchol yn talu mwy tuag at ffioedd neu'n ychwanegu at gyflogau, a darparwyr llai yn newid sut y maent yn darparu gofal. Mae'r broses weithredu wedi tynnu sylw at heriau presennol mewn gofal cymdeithasol, ac efallai eu bod wedi eu gwaethygu i rai darparwyr. Bydd yr agweddau hyn yn cael eu harchwilio ymhellach yn y gwerthusiad o effaith, gan na ymgysylltwyd â'r gweithlu fel rhan o'r gwerthusiad o'r broses.

## 6.3 Argymhellion

Mae'r adroddiad yn darparu pedwar argymhelliad sydd â'r bwriad o wella dull rheoli a gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r gwelliannau a'r camau gweithredu a nodir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar farn ac awgrymiadau rhanddeiliaid a'n dadansoddiad a'n dehongliad ohonynt.

Nid oes disgwyl y bydd pawb yn cytuno â'r holl awgrymiadau ar gyfer gwella, ond bwriad y camau arfaethedig yw cefnogi gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn fwy effeithiol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol er mwyn cyflawni'r nodau a fwriadwyd.

Bydd yr argymhellion hyn yn gofyn am i fewnbwn yr holl randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd y GIG a darparwyr, gael eu cyflawni'n llwyddiannus.

**Ystyriwch sut rydych chi'n cyfathrebu amser codi'r Cyflog Byw Gwirioneddol i roi hyder i bobl ynghylch pryd y daw codiad cyflog a beth fydd y codiad hwnnw.** Gellid gwella cyfathrebiadau am amseriad codi'r Cyflog Byw Gwirioneddol i gyfleu'n glir y bydd y gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol newydd yn cael ei gweithredu o'r mis Ebrill canlynol. Pe bai modd gwneud darpariaethau ar gyfer codiad cyflog canol blwyddyn adeg cyhoeddi'r gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol ddiweddaraf, byddai hyn yn debygol o helpu i gynnal ewyllys da ymhlith y gweithlu ac atal y demtasiwn i weithwyr gofal symud at gyflogwyr sydd â'r gallu i dalu'r codiad yn gyflymach na'r sector gofal. Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd ffocws ychwanegol ar gyfathrebu'r amserlen ar gyfer codiadau yn bwysig.

**Ystyriwch ddichonoldeb neilltuo cyllid i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a'r costau cysylltiedig, er mwyn gwella tryloywder ac atebolrwydd. Os nad yw hyn yn ymarferol, gallai Llywodraeth Cymru fod yn fwy eglur gydag awdurdodau lleol ynghylch pa gyllid sydd wedi'i fwriadu ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol o fewn y Grant Cynnal Refeniw heb ei neilltuo.** Mae posibilrwydd y byddai baich gweinyddol ar awdurdodau lleol a chostau trafodion i neilltuo cyllid. Fodd bynnag, efallai mai dyma'r dull mwyaf effeithiol o sicrhau bod cyllid a fwriedir i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hyn. Os nad yw neilltuo'n ymarferol, yn enwedig gyda'r mecanweithiau cyllido presennol, yna ystyriwch esbonio'n benodol pa gyllid mae pob awdurdod lleol wedi'i gael sydd wedi'i fwriadu ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol o fewn y Grant Cynnal Refeniw, i'w cyfarwyddo'n well i ddefnyddio'r cyllid fel y bwriadwyd. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn dal i fod yn agored i ddarparwyr ac awdurdodau lleol sy'n gwneud dewisiadau gwahanol.

**Adolygwch y dull o fonitro dull gweithredu'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol, gan gynnwys defnyddio casgliadau data gweithlu presennol i fonitro lefelau cyflog gwirioneddol a phrofiadau pobl o'u cyflog.** Ar hyn o bryd, ni ellir dweud yn sicr faint o weithwyr gofal cymdeithasol cymwys sy'n cael y Cyflog Byw Gwirioneddol. Byddai ystyriaeth bellach o sut mae cyflog gweithlu'n cael ei gasglu yn helpu i fonitro dull gweithredu'r polisi hwn yn barhaus.

**Cynyddwch dryloywder a chyfathrebiadau ynghylch cyfrifo'r cyllid ar gyfer y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol a'r hyn y mae'n ei gynnwys.** Byddai mwy o dryloywder a chyfathrebu cliriach ynghylch sut y daethpwyd i'r ffigur hwn yn rhoi dealltwriaeth gliriach i ddarparwyr o beth mae'r cyllid ar ei gyfer (h.y. y bwlch rhwng y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a gwahaniaethau). Bydd hefyd yn ei gwneud yn haws i lunwyr polisi, comisiynwyr gofal a darparwyr nodi a yw cyllid yn ddigonol a deall beth y dylai darparwyr fod yn ei gyfrannu eu hunain.

Yn ogystal â'r argymhellion hyn, gwahoddir llunwyr polisi i ystyried yn ehangach y risgiau sy'n gysylltiedig â'r ymrwymiad i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, pan na all Llywodraeth Cymru reoli costau'r polisi.

Pe bai Llywodraeth Cymru, comisiynwyr gofal neu ddarparwyr o'r farn bod y Cyflog Byw Gwirioneddol yn dod yn anfforddiadwy, mae risg y bydd disgwyliadau wedi cael eu codi ar draws y gweithlu ac y gallai unrhyw symudiad i dalu llai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol danseilio canlyniadau bwriedig y polisi.

Mae'r risg y bydd y polisi'n cael ei ystyried yn anfforddiadwy yn arbennig o acíwt oherwydd cyfuniad o chwyddiant uchel a phrinder cyllid. Mae'r gwerthusiad hwn eisoes wedi nodi sefydliadau sy'n ystyried a yw'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn fforddiadwy ai peidio.

Bydd yr effeithiau a'r canlyniadau annisgwyl ar gyfer gofal a ariennir yn breifat yn cael eu harchwilio ymhellach fel rhan o'r gwerthusiad o effaith a fydd yn cael ei gynnal o hydref 2024, gyda'r adroddiad hwn ar gael o haf 2025.

# 7. Cyfeiriadau


Gofal Cymdeithasol Cymru (2023). Arolwg o’r gweithlu gofal cymdeithasol 2023.

Gofal Cymdeithasol Cymru (2024). Pwy sydd angen cofrestru a pham?. Cyrchwyd:

Grocery Gazette (2024). Supermarket pay March 2024: Which UK grocer is top of the league?.

ICF (2018). Gwerth Economaidd y sector Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Cymru.

Institute for Government (2022). Cost of living crisis: How high is inflation? What prices are increasing fastest? Why have prices increased so rapidly?.

Living Wage Foundation (2023). Calculating the Real Living Wage for London and the rest of the UK: 2023.

Living Wage Foundation (2024). What is the real Living Wage?.

Living Wage Foundation (d.d.). Living Wage Commission.

Llywodraeth Cymru (2024a). Gweinyddu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.

Llywodraeth Cymru (2024b). Y fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth: cod ymarfer.

Llywodraeth Cymru (2023). Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol: adroddiad cynnydd blynyddol 2023.

Morgan, J. (2021). Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Datganiad y Cabinet. Llywodraeth Cymru.

NHS Employers (2024). Pay scales for 2024/25.

Shelter Cymru (2024). How long will it take to get Universal Credit?.

Skills for Care (2023). Understanding the reasons care workers move on and their future intentions: Scoping Study.

Y Comisiwn Gwaith Teg (2019). Gwaith Teg Cymru: Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024). Consumer price inflation, UK: May 2024.

# 8. Atodiad A: Theori Newid

## 8.1 Pam

### 8.1.1 Angen sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cynnwys cyfran sylweddol o staff sy'n ennill y Cyflog Byw Cenedlaethol, a llai na hynny o bosibl, ar ôl ystyried amser teithio a ffactorau eraill.

Mae'n anodd llenwi swyddi gweithwyr gofal cymdeithasol, ac mae cyflogwyr yn cael trafferth cadw eu staff. Mae cystadleuaeth gyda'r GIG yn ogystal â sectorau cyflogau isel eraill, haws, yn heriol.

Cydnabyddir bod y gweithlu presennol yn teimlo nad yw'n cael ei werthfawrogi'n ddigonol na'i wobrwyo'n deg o ystyried heriau a phwysigrwydd y gwaith.

Mae'n annhebygol y bydd gweithlu a nodweddir gan swyddi gwag a throsiant staff uchel yn darparu gofal di-dor da, ac felly mae'n cyfrannu at ganlyniadau gofal is-optimaidd ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau.

### 8.1.2 Arsylwi sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Dylai gwella cyfradd gyflog sylfaenol gweithwyr gofal cymdeithasol wneud y canlynol:

- gwella natur gystadleuol y sector ar gyfer staff newydd.
- gwobrwyo staff presennol yn well a'u cymell i barhau yn y swydd.

Bydd cymhellion ariannol gwell yn gwella prosesau recriwtio a chadw staff.

## 8.2 Pwy (rhagdybiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth)

**Buddiolwyr uniongyrchol :**

- gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig sydd wedi derbyn cyflog is na chyfradd y Cyflog Byw Gwirioneddol.

**Buddiolwyr anuniongyrchol:**

- rheolwyr gofal cymdeithasol sydd hefyd yn derbyn cynnydd i gynnal gwahaniaethau mewn cyflogau presennol.
- defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol, sy'n derbyn gofal di-dor gwell.
- darparwyr gofal cymdeithasol, sy'n elwa ar brosesau gwell o ran recriwtio a chadw staff.
- yr economi sylfaenol leol, sy'n elwa ar wariant lleol.

## 8.3 Sut (yn seiliedig ar 2023-24)

**Mewnbynnau:**

- bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd fel rhan o gyllidebau prif ffrwd.

**Gweithgareddau:**

- bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn gyfrifol am ddosbarthu arian i ddarparwyr drwy broses gomisiynu. Dylai hyn dalu am y codiad cyflog, 'argostau', a chostau canlyniadol cysylltiedig.
- bydd darparwyr gofal cymdeithasol yn trosglwyddo'r setliadau sydd wedi'u negodi i aelodau staff cymwys.
- bydd awdurdodau lleol yn trosglwyddo cyllid ychwanegol yn uniongyrchol i bobl â Chyllidebau Personol sy'n cyflogi Cynorthwyydd Personol.

## 8.4 Beth fydd y polisi yn ei gyflawni?

### 8.4.1 Canlyniadau tymor byr

**Ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol**

- mae gweithwyr yn derbyn cyflogau uwch.
- mwy o foddhad gyda chyflog.
- gwella morâl gweithwyr gofal cymdeithasol.

**Ar gyfer y system ofal ehangach**

- cadw gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol presennol yn y gweithlu.
- denu mwy o bobl i weithio yn y sector gofal cymdeithasol.

### 8.4.2 Canlyniadau tymor canolig

**Ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol**

- mwy o gydnabyddiaeth o werth gwaith gofal cymdeithasol.
- mae tlodi mewn gwaith yn cael ei ddileu, a neb yn cael ei dalu yn llai na'r cyflog byw.
- gwella iechyd a llesiant

**Ar gyfer y system ofal ehangach**

- gwella enw da gyrfaoedd gofal cymdeithasol fel proffesiynau dymunol a deniadol.
- mwy o effeithlonrwydd oherwydd costau is sy'n gysylltiedig â throsiant nifer uchel o weithwyr.
- gwella ansawdd y gwasanaeth gofal cymdeithasol a ddarperir i ddefnyddwyr, gan elwa ar ofal di-dor gwell.
- budd i economïau lleol, oherwydd mwy o rym gwario ymysg gweithwyr gofal cymdeithasol.

### 8.4.3 Canlyniadau hirdymor

Gweithlu gofal cymdeithasol cryf a sefydlog sy'n hapus, yn iach ac yn derbyn cyflog teg.

Gwaith gofal cymdeithasol sy'n cael ei ystyried yn yrfa hyfyw a dymunol.

Mae gan y sector y gweithlu medrus sydd ei angen arno i ddarparu gofal o ansawdd uchel.

Mae gofal o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu gan weithlu proffesiynol ac uchel ei barch.

## 8.5 Rhagdybiaethau

Mae cyfradd tâl y Cyflog Byw Gwirioneddol yn ddigon uchel i:

- codi safonau byw ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol,
- atal gweithwyr gofal cymdeithasol rhag gadael y sector i weithio mewn sectorau eraill,
- denu aelodau staff newydd i'r sector;
- sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u gwobrwyo.

Darperir digon o gyllid yn barhaus i dalu costau'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, a bod y cyllid yn cael ei ddyrannu'n gywir i'w garfan arfaethedig.

Gall recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol wella ansawdd gofal.

## 8.6 Ffactorau allanol

Cyflogau mewn sectorau eraill fel manwerthu, lletygarwch a'r GIG yn cynyddu, a allai erydu'r manteision cystadleuol y gobeithir eu sicrhau trwy gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Nid yw cyllidebau Gofal Cymdeithasol yn ateb y galw cynyddol, gan arwain at bwysau negyddol ar ansawdd gofal.

Mesurau eraill a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru, comisiynwyr, neu gyflogwyr unigol i wneud gwaith gofal cymdeithasol yn fwy deniadol.

# 9. Atodiad B: Cynlluniau ar gyfer y gwerthusiad o effaith

Tri nod y gwerthusiad o effaith yw:

**Asesu'r effaith mae talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol wedi'i chael ar y canlynol:**

- gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn bersonol ond hefyd o ran y gweithluoedd (er enghraifft, ar recriwtio a chadw)
- unigolion sy'n cael gofal a chymorth yng Nghymru
- unigolion sy'n cael taliadau uniongyrchol
- darparwyr gofal cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru
- comisiynwyr gofal gwasanaethau gofal cymdeithasol cofrestredig, megis awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

**Yn seiliedig ar y theori newid, bydd y gwerthusiad o effaith sy'n seiliedig ar theori:**

- yn profi'r rhagdybiaethau sylfaenol a wnaed wrth ddatblygu'r polisi
- yn deall pam a sut mae talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol wedi (neu heb) arwain at y canlyniadau bwriadol neu anfwriadol

**Argymell gwelliannau sy'n ymwneud â chwmpas a chylch gwaith talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol.**

Bydd y gwerthusiad o effaith yn cynnwys:

- Cyfweliadau lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid strategol cenedlaethol (n=10). Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal gyda'r un garfan â'r gwerthusiad o'r broses.
- Cyfweliadau lled-strwythuredig gyda darparwyr (n=70): Bydd cyfweliadau lled-strwythuredig yn cael eu cynnal gydag ystod o ddarparwyr gofal cymdeithasol. Amcangyfrifir y bydd angen 70 o gyfweliadau, yn seiliedig ar ddau gyfweliad fesul math o wasanaeth fesul Bwrdd Iechyd gan gynnwys: cartrefi gofal preswyl (65+); cartrefi gofal (18-65); cartrefi plant; byw â chymorth; a chynorthwywyr personol/gofal cartref.
- Cyfweliadau lled-strwythuredig gyda chomisiynwyr gofal (n=58): Bydd cyfweliadau lled-strwythuredig yn cael eu cynnal gyda chomisiynwyr gofal, gan gynnwys cynrychiolwyr ar gyfer gofal cymdeithasol plant ac oedolion o bob un o'r 22 awdurdod lleol a'r 7 bwrdd iechyd.
- Arolwg ar-lein cenedlaethol o'r gweithlu cofrestredig a chynorthwywyr personol: Bydd arolwg ar-lein yn cael ei greu i archwilio barn y gweithlu am y polisi Cyflog Byw Gwirioneddol. Bydd hyn yn cael ei ddosbarthu drwy awdurdodau lleol a darparwyr.

- Arolwg o dderbynwyr taliadau uniongyrchol sy'n ei ddefnyddio i dalu cynorthwyydd personol: Mae'r arolwg hwn eisoes wedi'i gynnal a bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i ddeall mwy am effaith y polisi ar dderbynwyr taliadau uniongyrchol a chynorthwywyr personol.
- Adolygiad o unrhyw ddata canlyniadau sydd ar gael.

# 10. Atodiad C: Effaith codiad cyflog o'r Cyflog Byw Cenedlaethol i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar daliad Credyd Cynhwysol

Mae'r cyfrifiadau isod yn modelu effaith symud o'r Cyflog Byw Cenedlaethol i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer oedolyn 25 oed a hŷn sy'n cael Credyd Cynhwysol. Mae'r cyfrifiadau'n cymryd yn ganiataol nad yw'r person yn cael unrhyw fudd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill megis Budd-dal Tai.

Mae'r cyfrifiadau'n dangos bod y codiad cyflog yn sylweddol (£255.55) ar gyfer gweithwyr llawn amser. Oherwydd y gyfradd tapr Credyd Cynhwysol, ar gyfer rôl ran-amser 20 awr, mae'r gwahaniaeth yn sgil symud i'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn llai, sef £60.38 y mis.

**Rôl Llawn Amser (37.5 awr yr wythnos)**

Incwm y Cyflog Byw Cenedlaethol:

- Wythnosol: 37.5 awr x £10.42 = £390.75
- Misol: 4.33 wythnos × £390.75 = £1,692.95

Incwm y Cyflog Byw Gwirioneddol:

- Wythnosol: 37.5 awr x £12.00 = £450.00
- Misol: 4.33 wythnos × £450.00 = £1,948.50

**Rôl Ran-amser (20 awr yr wythnos)**

Incwm y Cyflog Byw Cenedlaethol:

- Wythnosol: 20 awr x £10.42 = £208.40
- Misol: 4.33 wythnos × £208.40 = £902.35

Incwm y Cyflog Byw Gwirioneddol:

- Wythnosol: 20 awr x £12.00 = £240.00
- Misol: 4.33 wythnos × £240.00 = £1,039.20

## 10.1 Cyfrifo Effaith Credyd Cynhwysol

Lwfans misol safonol ar gyfer person sengl dros 25 oed: £393.45

**Rôl Llawn Amser**

Y Cyflog Byw Cenedlaethol:

- Enillion misol: £1,692.95
- Gostyngiad Credyd Cynhwysol: (£1,692.95 − £673) × 0.55 = £561.82

- Credyd Cynhwysol a gafwyd: £393.45 - £561.82 = £0 (Credyd Cynhwysol wedi'i ostwng yn llawn i sero)

Y Cyflog Byw Gwirioneddol:

- Enillion misol: £1,948.50
- Gostyngiad Credyd Cynhwysol: (£1,948.50 − £673) × 0.55 = £700.73
- Credyd Cynhwysol a gafwyd: £393.45 - £700.73 = £0 (Credyd Cynhwysol wedi'i ostwng yn llawn i sero)

**Rôl Ran-amser**

Y Cyflog Byw Cenedlaethol:

- Enillion misol: £902.35
- Gostyngiad Credyd Cynhwysol: (£902.35 − £673) × 0.55 = £125.29
- Credyd Cynhwysol a gafwyd: £393.45 - £125.29 = £268.16

Y Cyflog Byw Gwirioneddol:

- Enillion misol: £1,039.20
- Gostyngiad Credyd Cynhwysol: (£1,039.20 − £673) × 0.55 = £201.76
- Credyd Cynhwysol a gafwyd: £393.45 - £201.76 = £191.69

## 10.2 Crynodeb

**Rôl Llawn Amser**

- Cyfanswm Incwm y Cyflog Byw Cenedlaethol: £1,692.95 (Cyflog) + £0 (Credyd Cynhwysol) = £1,692.95
- Cyfanswm Incwm y Cyflog Byw Gwirioneddol: £1,948.50 (Cyflog) + £0 (Credyd Cynhwysol) = £1,948.50

**Rôl Ran-amser**

- Cyfanswm Incwm y Cyflog Byw Cenedlaethol: £902.35 (Cyflog) + £268.16 (Credyd Cynhwysol) = £1,170.51
- Cyfanswm Incwm y Cyflog Byw Gwirioneddol: £1,039.20 (Cyflog) + £191.69 (Credyd Cynhwysol) = £1,230.89